Senedd Cymru

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Y sefyllfa sydd ohoni: Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

Mawrth 2024




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDiwylliant@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDiwyllCRh**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# **Y sefyllfa sydd ohoni:** Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru

Mawrth 2024

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDiwylliant**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru



**Hefin David AS**
Llafur Cymru



**Alun Davies AS**
Llafur Cymru



**Tom Giffard AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Llyr Gruffydd AS**
Plaid Cymru



**Carolyn Thomas AS**
Llafur Cymru

---

## Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Peter Fox AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** ..... 5

**Argymhellion** ..... 7

**1. Cyflwyniad** ..... 10

**2. Y Bil Cyfryngau** ..... 13

Y cyd-destun ..... 13

Barn rhanddeiliaid ..... 16

Amseriad Y Bil Cyfryngau ..... 16

Rôl Ofcom ac amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ..... 16

Colli rheolaeth gyfyngedig ar y Gymraeg ar radio masnachol ..... 18

Ein barn ni ..... 19

**3. Cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus** ..... 21

Y cyd-destun ..... 21

Cyllid ar gyfer S4C ..... 23

Cyllid y BBC ..... 24

Ein barn ni ..... 25

**4. Y BBC** ..... 27

Perfformiad ariannol ..... 27

Gwariant rhwydwaith yng Nghymru ..... 27

Cynnwys teledu lleol ..... 28

Gwahaniaeth yn y gyllideb rhwng Cymru a'r Alban ..... 30

Cynrychiolaeth cynulleidfaoedd ..... 32

Effaith y BBC ar newyddion masnachol lleol ..... 32

Ein barn ni ..... 33

**5. S4C ..... 35**

Trawsnewid digidol ..... 35

Yr effaith economaidd ..... 35

Darlledu chwaraeon ..... 36

Ein barn ni ..... 37

**6. ITV ..... 39**

Trwydded Sianel 3 yng Nghymru ..... 39

Cynnwys rhwydwaith a gwariant yng Nghymru ..... 42

Cynnwys teledu lleol ..... 45

Ein barn ni ..... 46

**7. Sylw a roddir i faterion datganoledig ar newyddion y DU ..... 48**

Ein barn ni ..... 50

**8. Hawliau darlledu chwaraeon ..... 51**

Ein barn ni ..... 54

**9. Polisi Llywodraeth Cymru ..... 56**

Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru 56

Ein barn ni ..... 58

**10. O ble y daw'r gwelliannau? ..... 59**

Dim Newyddion Cymru gyfan ..... 59

Ofcom: Yn fy marn i, byddai pawb ledled y Deyrnas Unedig yn hoffi gweld mwy o raglenni amdanyn nhw ..... 60

Llywodraeth y DU: Yn fy marn i, dyma rywbeth y mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi sylw iddo ..... 60

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ..... 61

Trefniadau llywodraethu presennol ..... 62

Ein barn ni ..... 63

**Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar ..... 66**

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'n bleser gen i gyflwyno ein hadroddiad ar ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r sector darlledu yn profi cyfnod o newid aruthrol, wedi'i arwain gan ddatblygiadau technolegol, a newidiadau yn y modd y mae pobl yn cyrchu a defnyddio'r cyfryngau, ymhlith ffactorau eraill. Nid yw darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru wedi'i gysgodi rhag y cyfryw newidiadau.

Er mai diben ein gwaith oedd pennu sut un yw'r sefyllfa sydd ohoni yn y sector yng Nghymru, roedd un cwestiwn yn codi dro ar ôl tro wrth inni ystyried y gwaith hwn: Pa mor effeithiol y mae buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli gan y system bresennol? O ystyried yr argymhellion sydd wedi'u hamlinellu gennym yn yr adroddiad hwn, credwn fod yna ateb syml i'r cwestiwn o dan sylw. Ein barn ni yw nad yw buddiannau Cymru yn cael eu hystyried i raddau digonol mewn trafodaethau sy'n ymwneud â darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

At ddibenion y setliad datganoli, mae darlledu yn fater a gadwyd yn ôl i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae darlledu yn chwarae rhan bwysig wrth bortreadu (ac, efallai, llunio) hunaniaeth Gymreig – yn ogystal â chwarae rhan bwysig yn ein democratiaeth – drwy sicrhau bod systemau llywodraethiant yn cael eu dwyn i gyfrif.

Mae pobl Cymru yn defnyddio ac yn mwynhau'r cynnwys sydd ar gynnig drwy ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, yn rheolaidd. Er bod mwy o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei wylio na chynnwys ar lwyfannau eraill, mae newid mewn arferion yn golygu bod defnydd gwylwyr o gynnwys arall – er enghraifft tanysgrifio i wasanaethau fideo ar-alw – ar gynnydd. Gyda hynny'n gefndir, mae'n bwysig, mewn oes o newid technolegol, bod amlygrwydd ein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei gynnal, er mwyn i wylwyr allu parhau i gyrchu'r gwasanaethau hyn yn hawdd.

Fel y darlledwr pennaf o ran cynhyrchu cynnwys Saesneg yng Nghymru, rhaid i'r BBC, hefyd, barhau i newid. Rydym o'r farn y dylai'r BBC gadw'r ddysgl yn wastad rhwng Cymru a'r Alban, drwy gynyddu gwariant ar gynnwys teledu Saesneg yng Nghymru, hyd nes iddo gyrraedd yr un lefel o wariant ag yn yr Alban.

At hynny, buom yn ystyried nifer o faterion yn ymwneud ag S4C, sef yr unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus sy'n darlledu'n gyfan gwbl yn Gymraeg. Ers tro byd, bu cyllid S4C yn y dyfodol yn fater o ansicrwydd. Anodd yw credu bod trefniadau ariannu'r darlledwr wedi newid deirgwaith yn ystod y pymtheng mlynedd diwethaf. Clywsom fod ar S4C – fel y BBC – angen sicrwydd yn ei dyraniadau cyllid, er mwyn cefnogi  camau cynllunio at ddibenion cynnwys teledu yn y dyfodol. Ar wahân i wrthdroi gostyngiadau cyllid diweddar, ein barn yw fod angen fformiwla ariannu er mwyn rhoi sicrwydd i'r darlledwr.

At hynny, mae newidiadau y gall Ofcom eu gwneud a fyddai'n gwella darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Ofcom yw'r rheoleiddiwr ac yn sgil hynny, mae mewn sefyllfa unigryw i lywio newid er budd y cyhoedd sy'n gwylio. Rhaid i Ofcom fod yn uchelgeisiol gyda'r gwaith hwn. Dylai geisio gwella'r modd y caiff Cymru ei chynrychioli mewn rhaglenni, yn ogystal â faint o gynnwys rhwydwaith y mae ITV yn ei wneud yng Nghymru. Ar ben hynny, dylai geisio gwella'r sylw a roddir i Gymru, a materion datganoledig, yn y newyddion rhwydwaith, er enghraifft iechyd ac addysg.

Mae ein hargymhellion terfynol yn ymwneud â'r angen i wella llywodraethiant darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Er nad yw darlledu wedi'i ddatganoli, rydym o'r farn y dylai'r Senedd a Llywodraeth Cymru gael mwy o lais o ran y modd y caiff penodiadau sy'n cynrychioli buddiannau Cymru eu gwneud, o ystyried pwysigrwydd darlledu i Gymru a'i democratiaeth. Yn ein barn ni, byddai hyn yn ychwanegu haen bwysig arall o ran atebolrwydd.

Mae'r argymhellion hyn yn cael eu gwneud gennym i sicrhau bod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn rhoi ystyriaeth i'r cyd-destunau technolegol, cymdeithasol a gwleidyddol sy'n newid yn gyflym – ac y mae Cymru yn eu hwynebu – a sicrhau bod ein gwasanaethau darlledu yn ateb y galw mewn oes ddigidol.



**Delyth Jewell AS**

Cadeirydd y Pwyllgor

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth y DU ei gwneud yn glir ei bod yn cefnogi Ofcom yn gyfan gwbl i amddiffyn hawliau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus os bydd anghydfodau â llwyfannau cyfryngau eraill sy'n codi o'r Bil Cyfryngau. ........ Tudalen 19

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r Bil Cyfryngau i newid cyfeiriadau at amlygrwydd "priodol" cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i amlygrwydd "sylweddol" cynnwys gwasanaeth cyhoeddus. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r Bil Cyfryngau i gynyddu pwerau Ofcom o ran y Gymraeg ar radio masnachol er mwyn diogelu cynnwys Cymraeg mewn ardaloedd â phoblogaeth sylweddol o siaradwyr Cymraeg. ........ Tudalen 20

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth y DU gynyddu cyllid S4C yn sylweddol. Dylai hyn gynnwys cyllid dangosol am nifer o flynyddoedd er mwyn galluogi S4C i gynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried ariannu S4C yn ôl fformiwla, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i S4C ynghylch cyllid yn y dyfodol. Gallai'r fformiwla hon gynnwys cysylltu cyllid S4C â mesurau chwyddiant fel Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu Fynegai Prisiau Manwerhu, neu gyfeirio at refeniw cyffredinol ffi'r drwydded. Dylai gynnwys mecanwaith glicied er mwyn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer S4C yn disgyn mewn termau real. ........ Tudalen 25

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Adolygiad Model Ariannu'r BBC Llywodraeth y DU gymryd tystiolaeth gan S4C. Rhaid i'r adolygiad gyfeirio'n benodol at gyllid cyhoeddus S4C gan fod y darlledwr yn cael ei ariannu'n bennaf o ffi'r drwydded. ........ Tudalen 26

**Argymhelliad 7.** Dylai gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg yng Nghymru dyfu o'r naill flwyddyn i'r llall nes ei fod yn cyd-fynd â gwariant y BBC ar gynnwys Saesneg yn yr Alban. Dylai'r BBC amlinellu i'r Pwyllgor hwn sut y bydd yn cyflawni hyn. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 8.** Dylai Ofcom fod yn uchelgeisiol wrth ddefnyddio ei ddull o reoleiddio'r BBC i ysgogi gwelliannau i gynrychiolaeth a phortread y BBC o bobl yng Nghymru. Dylai'r BBC ac Ofcom adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn diwedd y Chweched Senedd i adrodd ar ei gynnydd. .......... Tudalen 34

**Argymhelliad 9.** Dylai S4C sicrhau bod gwariant ar gynnwys yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal ledled Cymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn. .......... Tudalen 37

**Argymhelliad 10.** Dylai Ofcom gynnwys gofyniad i drwydded Sianel 3 yng Nghymru gynhyrchu cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn. .......... Tudalen 47

**Argymhelliad 11.** Dylai darparwyr newyddion rhwydwaith, gan gynnwys y BBC ac ITN, barhau i ysgogi gwelliannau yn eu hadroddiadau ar faterion polisi datganoledig. .......... Tudalen 50

**Argymhelliad 12.** Dylai Ofcom adolygu darllediadau newyddion rhwydwaith y DU o faterion polisi datganoledig yn barhaus. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn. .......... Tudalen 50

**Argymhelliad 13.** Dylai Ofcom ddefnyddio pwerau rheoleiddio presennol i wella'r sylw a roddir i faterion polisi datganoledig yn y newyddion rhwydwaith. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn. .......... Tudalen 50

**Argymhelliad 14.** Dylai Ofcom wella ei ddadansoddiad o'r cyfryngau a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys drwy gynyddu lefelau staffio yng Nghymru. .......... Tudalen 64

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth y DU nodi sut y bydd yn gwella'r cynnwys y cyfryngau a ddarperir i gynulleidfaoedd yng Nghymru. .......... Tudalen 65

**Argymhelliad 16.** Dim ond ar ôl i un o bwyllgorau'r Senedd gael cynnig y cyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeiswyr a ffefrir y dylai Llywodraeth Cymru gytuno i benodiadau i rolau Ofcom ac aelodau'r BBC dros Gymru. .......... Tudalen 65

**Argymhelliad 17.** Dylai fod angen cytundeb Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiad Cadeirydd S4C gan Lywodraeth y DU. I gyd-fynd â hyn, dylid cynnig cyfle i un o bwyllgorau'r Senedd gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir. ........................................ Tudalen 65

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r diwydiant darlledu yn mynd trwy gyfnod o newid trawsnewidiol sylweddol wedi'i ysgogi gan ddatblygiad technolegol a globaleiddio gwasanaethau. Mae gwylwyr yn ymateb i'r cynnydd enfawr yn y dewis sydd ar gael ar y cyfryngau drwy symud oddi wrth deledu a ddarlledir yn y ffordd draddodiadol at wasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio, fel Netflix ac Amazon Prime.

**2.** Pan lansiwyd S4C ym 1982, roedd yn un o bedair sianel deledu a oedd ar gael yng Nghymru. Erbyn hyn, mae'n un o 70 o sianeli Freeview, heb sôn am y sianeli sydd ar gael drwy becynnau tanysgrifio, a gwasanaethau ar-lein yn unig fel Netflix. Mae effaith tarfu digidol ar y cyfryngau darlledu wedi arwain at y canlynol:


- Gostyngiad o ran y cynulleidfaoedd y mae'r holl brif sianeli darlledu gwasanaeth cyhoeddus[1] yn eu cyrraedd.
- Gostyngiad yng nghyfran yr amser a dreulir yn gwylio teledu a ddarlledir, yn enwedig gan bobl ifanc. O ran y fideos a wyliwyd gan bobl 16-34 oed yn 2021, dim ond 30 y cant ohonynt oedd yn ddeunydd a ddarlledwyd. Pan gaiff gwasanaethau dal i fyny darlledwyr eu cynnwys, daw'r ffigur hwn yn 23 y cant.[2]
- Twf cyflym o ran nifer y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau fideo ar alw drwy danysgrifio. Rhwng 2015 a 2018, dyblodd nifer y cartrefi yn y DU a oedd â mynediad at wasanaeth fideo ar alw drwy danysgrifio, ac yn 2023 roedd yn 66 y cant o gartrefi. Roedd gan 63 y cant o aelwydydd yng Nghymru fynediad at wasanaeth o'r fath ddechrau 2023.[3]
- Twf enfawr yng nghyllidebau cynnwys cwmnïau fideo ar alw drwy danysgrifio. Yn ôl pob sôn, mae Netflix ac Amazon yn gwario cymaint â

[1] Y cyfeirir ato dan yr acronym "PSB" mewn dyfyniadau dethol yn yr adroddiad hwn.
[2] Cyfryngau'r Genedl Ofcom 2023
[3] Daw'r ffigurau hyn o Ofcom Cyfryngau'r Genedl DU 2022 ac Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023

£15 miliwn yr awr, [4] o'i gymharu â thariff dangosol y BBC o £1 miliwn yr awr ar gyfer dramâu premiwm.[5] Yn 2022-23, cost yr awr am ddrama i S4C oedd £100,000-£200,000. [6]

**3.** Mae swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd wedi bod yn gostwng o'r naill flwyddyn i'r llall (ar wahân i 2020 sy'n cyfrif am gyfyngiadau symud pandemig Covid-19).[7]

**Swm cyfartalog y munudau gwylio y dydd, y pen, yn ôl gwlad: 2017-2022[8]**




*Ffynhonnell: BARB. Ardaloedd y BBC, pob unigolyn (4 oed a hŷn).*

**4.** Yn y cyfamser, mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno yn Senedd y DU, ymhlith pethau eraill, i sicrhau bod rheoliadau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn addas ar gyfer yr oes ddigidol.[9]

**5.** Gwnaethom benderfynu cynnal cyfres o sesiynau craffu gyda rhanddeiliaid ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus i benderfynu sut sefyllfa yr oedd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ynddi. Ein bwriad i ddechrau oedd y dylai'r sesiynau hyn fod ar ffurf adolygiad byr, gan ategu gwaith y Pwyllgor Diwylliant, y

---

[4] Public service broadcasting: as vital as ever – Pwyllgor Dethol ar Gyfathrebu a Digidol – Tŷ'r Arglwyddi – 5 Tachwedd 2019
[5] Ystod tariffau prisiau dangosol y BBC ar gyfer cyflenwi rhaglenni teledu a gomisiynwyd
[6] Tariffau Rhaglenni S4C – cost fesul awr
[7] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[8] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[9] Mesur Cyfryngau – Senedd y DU

Gymraeg a Chyfathrebu ("y Pwyllgor a'n rhagflaenodd") ar y pwnc yn 2021.[10] Rhagwelwyd y byddai'r sesiynau tystiolaeth hyn yn llywio ac yn ategu ei gilydd er mwyn caniatáu inni lunio barn ar gyflwr darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

**6.** Wrth inni archwilio'r materion a amlinellir yn yr adroddiad hwn, er hyn, daeth yn amlwg bod nifer o argymhellion y dylem eu gwneud i gyflwyno newidiadau i wella darlledu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru.

**7.** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn archwilio'r materion allweddol rydym wedi'u nodi yn ystod ein hadolygiad o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac yn cynnig nifer o gamau gweithredu yr ydym yn credu y gallent wella materion.

**8.** Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran mewn sesiynau tystiolaeth lafar gyda ni yn hydref 2023.

[10] Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Mawrth 2021

# 2. Y Bil Cyfryngau

## Y cyd-destun

**9.** Yn 2021, cyhoeddodd Ofcom adroddiad yn dilyn dadl gyhoeddus ar ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus yn y DU, "Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr":[11] Mewn datganiad a oedd yn cyd-fynd â'r adroddiad, dywedodd Ofcom:

> *"Roedd amrywiaeth eang o safbwyntiau, ond roedd cytundeb ar rai materion sylfaenol: pwysigrwydd cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i wylwyr yn y DU ac economi'r DU; a'r angen brys i ddiweddaru'r system cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus i sicrhau ei bod yn gynaliadwy'n ariannol ar gyfer y dyfodol."*[12]

**10.** Fel y nododd Ofcom yn ei adroddiad, mae'r diwydiant darlledu yn y DU yn wynebu heriau enfawr.[13] Roedd yr adroddiad yn nodi'r canlynol: [14]

- Mae newid cyflym yn y diwydiant – sy'n cael ei sbarduno gan dueddiadau masnachol byd-eang a newid mewn arferion gwylio – yn ei gwneud yn anoddach i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gystadlu am gynulleidfaoedd a chynnal eu harlwy presennol.
- Felly, mae angen addasu deddfwriaeth ar gyfer yr oes ddigidol.
- Mae'n rhaid i ddarparwyr cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus barhau i drawsnewid os ydynt am lwyddo yn y byd darlledu newydd.[15]

**11.** Ar 13 Hydref 2021, cynhaliom ymchwiliad undydd i'r heriau sy'n wynebu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, a gafodd ei lywio'n rhannol gan y

[11] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Y ddadl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yn y DU
[12] Datganiad – Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Ofcom – 15 Gorffennaf 2021
[13] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Y ddadl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yn y DU
[14] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Y ddadl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yn y DU
[15] Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr - Y ddadl ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yn y DU

canfyddiadau a amlinellwyd yn adroddiad Ofcom.[16] Dylai Llywodraeth y DU ddatblygu cynigion polisi a deddfwriaethol i weithredu argymhellion Ofcom yn 'Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr', a sicrhau y caiff y gweinyddiaethau datganoledig eu cynnwys yn llawn yn y gwaith hwn.[17]

**12.** Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dywedodd Llywodraeth y DU:

> *"… is conducting its own strategic review of PSB, which has included appointing an independent PSB Advisory Panel. The Government is keen to ensure that the UK continues to benefit from a modern system of PSB that remains relevant and can continue to meet the needs of UK audiences in the future. The review is about working out how best to achieve that in light of the challenges the sector is currently facing."*[18]

**13.** Ar 29 Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Fil Cyfryngau Drafft i ddiweddaru deddfwriaeth darlledu i foderneiddio rheoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus.[19]

**14.** Cyflwynwyd Bil y Cyfryngau ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Tachwedd 2023. [20]

**15.** Mae darpariaethau yn y Bil (fel y'i cyflwynwyd) yn cynnwys[21]:

- Ehangu'r drefn amlygrwydd bresennol (sy'n dweud y dylai cynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus fod ar gael yn amlwg ar ganllawiau rhaglenni electronig teledu) fel bod gwasanaethau ar-lein darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn mwynhau sefyllfa freintiedig debyg ar

[16] Ymchwiliad undydd i ddyfodol cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus – Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
[17] Ymateb i Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr – Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Rhagfyr 2021
[18] Ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon - Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a chyfryngau yng Nghymru - Rhagfyr 2021 [PDF 114 KB]
[19] Papur polisi Bil Cyfryngau drafft – Llywodraeth y DU – 29 Mawrth 2023
[20] Y Bil Cyfryngau – Senedd y DU
[21] Y Bil Cyfryngau (fel y'i cyflwynwyd) – Senedd y DU – 8 Tachwedd 2023

setiau teledu clyfar, blychau pen set a ffyn ffrydio i sianeli byw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

- Gwneud cymhwyso ar gyfer y drefn digwyddiadau rhestredig yn fudd penodol i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus, sy'n golygu y bydd S4C yn cael ei chynnwys. Mae hefyd yn ehangu'r ystod o wasanaethau a fydd o fewn cwmpas y gyfundrefn, gan sicrhau y bydd yn rhaid i wasanaethau tebyg i deledu, nad ydynt yn cael eu cynnwys gan y drefn ar hyn o bryd ond sy'n darparu cynnwys byw i gynulleidfaoedd y DU drwy'r rhyngrwyd, gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.[22]

- Dileu'r cyfyngiad daearyddol presennol ar bwerau S4C er mwyn sicrhau y gallai S4C ddarparu gwasanaethau y tu allan i Gymru, cadarnhau y byddai S4C yn cael darparu gwasanaeth digidol neu ar-lein, addasu'r trefniadau cymeradwyo ar gyfer gweithgareddau masnachol S4C a newid trefniadau llywodraethu'r sianel.[23]

**16.** Dywedodd Gweinidog Gwladol y Cyfryngau, Twristiaeth a Diwydiannau Creadigol ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale OBE AS ("y Gweinidog") wrth y Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin:

> *"In the context of the Welsh nation and Welsh public service broadcasting, obviously, the two main providers will continue to be the BBC and S4C. They will have the prominence they enjoy at the moment on linear, reinforced with the prominence legislation in the Media Bill, and we are also giving them a bit more flexibility as to how they go about delivering the content. As I say, for broadcasting generally, this is a golden age in terms of consumer choice and so on, but for public service broadcasting, it remains absolutely central to the Government's view of the broadcasting landscape, however it should evolve.*[24]

[22] Nodiadau Esboniadol y Bil Cyfryngau (fel y'i cyflwynwyd) – Senedd y DU – 8 Tachwedd 2023
[23] Y Bil Cyfryngau (fel y'i cyflwynwyd) – Senedd y DU – 8 Tachwedd 2023
[24] Tystiolaeth lafar – Darlledu yng Nghymru – Y Pwyllgor Materion Cymreig – Darlledu yng Nghymru – Q423 – 28 Mehefin 2023

## Barn rhanddeiliaid

**17.** Clywsom fod cefnogaeth gyffredinol i'r Bil Cyfryngau. Er enghraifft, cyn ei gyflwyno, dywedodd S4C wrthym pe bai'r Bil yn cael ei basio yn ei ffurf bresennol, y bydd yn hapus iawn.[25]

### Amseriad Y Bil Cyfryngau

**18.** Cododd dystion bryderon am amseriad y Bil, a oedd yn eu barn nhw eisoes yn hwyr. Dywedodd S4C wrthym:

> *"mae'n hwyr yn barod— byddai'n well pe bai hwn wedi cyrraedd y llyfr statud rai blynyddoedd yn ôl. Byddai unrhyw oedi pellach yn hynod niweidiol i ni fel sefydliad."*[26]

**19.** Ychwanegodd ITV eu bod nhw eisiau gweld y Bil yn pasio cyn etholiad cyffredinol y DU sydd ar ddod.[27]

### Rôl Ofcom ac amlygrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus

**20.** Mae Rhan 2 y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn darparu rôl i Ofcom o ran datrys anghydfodau rhwng darlledwyr gwasanaethau cyhoeddus a llwyfannau, pe byddent yn methu â chytuno ar y telerau y mae llwyfannau yn cario gwasanaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus o dan y drefn amlygrwydd ar-lein newydd.[28] Dywedwyd wrthym fod angen digon o bŵer i Ofcom ddatrys yr anghydfodau hyn.

---

[25] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 54
[26] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 54
[27] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023 – paragraff 250
[28] Nodiadau Esboniadol Bil y Cyfryngau (fel y'i cyflwynwyd) – Senedd y DU – 8 Tachwedd 2023

**21.** Dywedodd S4C, os bydd trafodaethau â pherchnogion llwyfannau, neu wneuthurwyr technoleg, yn methu, yna byddai angen iddyn nhw droi at Ofcom.[29] Dywedodd wrthym:

> *"Ofcom is going to have an incredibly important role in enforcing the new regime, and one of the things we would like…is Parliament to make very clear, and the Senedd indeed to make very clear, that it's important Ofcom is muscular in its enforcement of the regime, because in effect it's going to be confronting global players— Amazon, Google, Samsung and so on. It's really important that they are emphatic about what Parliament wants in terms of prominence, in terms of making sure the terms on which we are carried are appropriate."*[30]

**22.** Gofynnom i'r Gweinidog am hyn a dywedwyd wrthym mai'r disgwyliad fyddai y byddai Ofcom yn cefnogi'r darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.[31]

**23.** Awgrymodd y BBC wrthym y dylai'r Bil ei gwneud hi'n ofynnol i wasanaethau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus gael amlygrwydd sylweddol, yn hytrach nag amlygrwydd priodol wrth i'r Bil gael ei ddrafftio.[32] Pwysleisiodd:

> *"We have to decide are we going to protect what I think is a unique media landscape."*[33]

**24.** Soniodd y BBC wrthym am faterion yr hoffent iddynt gael sylw yn y Bil:

---

[29] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 57

[30] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023, paragraff 250

[31] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 130

[32] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023, paragraff 11

[33] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023, paragraff 11

> *"… would be 'significant prominence', that would be things like are there going to be controls over remote controls and what you put on there, because we do know that— . Frankly, I come from a commercial background, where if money talks— . Just say you were a television manufacturer and the biggest cheque got you the biggest button on the remote control— would that be acceptable? Are we okay with that just being led by the market?".*[34]

## Colli rheolaeth gyfyngedig ar y Gymraeg ar radio masnachol

**25.** Mae pwerau presennol Ofcom o ran defnyddio'r Gymraeg gan ddeiliaid trwyddedau radio masnachol yn gyfyngedig. Ar hyn o bryd, mae trwyddedeion yn gwneud ymrwymiadau ar gymeriad gwasanaethau – gan gynnwys unrhyw ymrwymiadau Cymraeg – fel rhan o broses gystadleuol o wneud cais am drwydded. Yna, mae Ofcom yn gosod rhwymedigaethau trwydded, sy'n adlewyrchu'r ymrwymiadau hyn.[35]

**26.** Mewn gohebiaeth â ni, esboniodd Ofcom y byddai'r darpariaethau drafft yn y Bil yn dileu swyddogaeth statudol Ofcom i reoleiddio cymeriad gwasanaeth gorsafoedd masnachol lleol. Mae hyn yn golygu mai'r darparwyr gwasanaeth eu hunain fydd yn penderfynu a ydynt yn darlledu yn Gymraeg ai peidio.[36]

**27.** Yn ei adroddiad yn 2021, argymhellodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd y newidiadau canlynol i reoleiddio radio masnachol:

> *"Dylai Llywodraeth y DU ddeddfu i alluogi corff rheoleiddio priodol i'w gwneud yn ofynnol bod deiliaid trwyddedau radio masnachol yng Nghymru yn darlledu cynnwys iaith Gymraeg, ynghyd â chyflwyno*

---

[34] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023, paragraff 11
[35] Ymateb gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 23 Hydref 2023 [PDF 230 KB]
[36] Ymateb gan Ofcom: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru - 23 Hydref 2023 [PDF 230 KB]

> *categori rheoliadol ar gyfer "newyddion Cymru gyfan". Dylai Llywodraeth Cymru chwarae rôl ffurfiol wrth bennu'r gofynion hyn."*[37]

## Ein barn ni

**28.** Fel yr holl randdeiliaid y clywsom ganddynt, rydym yn croesawu'r Bil Cyfryngau yn gyffredinol. Credwn y bydd yn darparu sylfaen ddeddfwriaethol y mae ei hangen yn ddirfawr ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer yr oes ddigidol.

**29.** Er ein bod yn croesawu'r Bil, rydym hefyd yn cytuno â thystion ynghylch pwysigrwydd y rôl a ragwelir ar gyfer Ofcom yn y Bil. Mae angen y pwerau gofynnol ar Ofcom, a thystiolaeth o ewyllys wleidyddol, i ganiatáu iddo ddyfarnu ar unrhyw anghydfodau rhwng darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus a llwyfannau cyfryngau eraill, pan fo'n fater o amlygrwydd. Rydym yn meddwl y gellid diffinio pwerau Ofcom yn well yn yr achos hwn.

**30.** Fel y cyfryw, rydym yn croesawu disgwyliad y Gweinidog y bydd Ofcom yn cael ei [darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus] yn ôl, ac yn galw ar Lywodraeth y DU i wneud y farn hon yn glir mewn unrhyw gyfeiriad polisi a roddir i Ofcom ar ôl i'r Bil Cyfryngau ddod i rym.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth y DU ei gwneud yn glir ei bod yn cefnogi Ofcom yn gyfan gwbl i amddiffyn hawliau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus os bydd anghydfodau â llwyfannau cyfryngau eraill sy'n codi o'r Bil Cyfryngau.

**31.** Rydym hefyd yn falch bod y Bil yn cydnabod ac yn diogelu cyfraniad unigryw darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i'r ecoleg ddarlledu. Rydym yn cytuno â'r BBC, fodd bynnag, ynghylch cyfeiriadau at amlygrwydd "priodol" ar gyfer cynnwys gwasanaeth cyhoeddus sydd yn y Bil. Dylid newid y cyfeiriadau hyn i amlygrwydd "sylweddol". Credwn y byddai'r amlygrwydd uwch hwn yn adlewyrchu pwysigrwydd darlledu gwasanaeth cyhoeddus i ecosystem ddarlledu'r DU.

---

[37] Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Mawrth 2021

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r Bil Cyfryngau i newid cyfeiriadau at amlygrwydd "priodol" cynnwys gwasanaeth cyhoeddus i amlygrwydd "sylweddol" cynnwys gwasanaeth cyhoeddus.

**32.** Rydym hefyd yn pryderu am yr hyn a glywsom ynghylch y newidiadau ym mhwerau rheoleiddio Ofcom ar gyfer y Gymraeg ar radio masnachol. Fel y nodwyd gennym, er ein bod yn cefnogi'r Bil ar y cyfan, rydym yn siomedig y byddai, fel y'i drafftiwyd, yn golygu bod Ofcom yn colli ei bwerau rheoleiddio cyfyngedig ar gyfer y Gymraeg ar radio masnachol. Mae diffyg darpariaeth marchnad o ran darlledu yn Gymraeg yn ei wneud yn faes lle teimlwn fod angen rôl ar Ofcom, fel y rheolydd, i sicrhau darpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith. Rydym o'r farn y dylid ehangu pwerau Ofcom mewn perthynas â'r Gymraeg er mwyn caniatáu iddo fynnu darpariaeth Gymraeg ar wasanaethau radio masnachol yng Nghymru.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth y DU ddiwygio'r Bil Cyfryngau i gynyddu pwerau Ofcom o ran y Gymraeg ar radio masnachol er mwyn diogelu cynnwys Cymraeg mewn ardaloedd â phoblogaeth sylweddol o siaradwyr Cymraeg.

# 3. Cyllid ar gyfer darlledu gwasanaeth cyhoeddus

## Y cyd-destun

**33.** Mae dau fodel ar gyfer ariannu darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU. Caiff Sianeli am ddim, megis ITV[38] a Sianel Pedwar[39], eu hariannu yn gyfan gwbl gan eu gweithgareddau masnachol eu hunain. Ariennir sianeli eraill fel y BBC ac S4C yn bennaf gan ffi'r drwydded[40] sy'n cael ei osod gan Lywodraeth y DU.

**34.** Rhwng 1996 a 2010, ariannwyd S4C yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU. Yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant 2010 a leihaodd incwm S4C 24 y cant, darparwyd llawer o incwm y sianel o ffi'r drwydded ac ategodd Llywodraeth y DU.[41] Mae holl arian cyhoeddus S4C yn dod o ffi'r drwydded[42] ers mis Ebrill 2022 (er bod tua dau y cant[43] o incwm S4C yn cael ei godi'n fasnachol).

**35.** Ym mis Ionawr 2022, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar y pryd y byddai ffi'r drwydded yn cael ei rhewi ar £159 am ddwy flynedd, cyn codi'n unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) tan fis Mawrth 2028.[44] Byddai S4C yn gweld ei chyllid blaenorol o ffi'r drwydded (£74.5 miliwn y flwyddyn) yn cael ei gyfuno gyda'r incwm grant gan DCMS (£6.85 miliwn y flwyddyn). Dyfarnwyd £7.5 miliwn pellach y flwyddyn o Ffi'r Drwydded i gefnogi datblygiad digidol S4C.[45] Darparodd hyn gyfanswm o tua £88.85 miliwn o gyllid Ffi'r Drwydded i S4C o 1 Ebrill 2022, gyda'r swm hwn i

---

[38] Beth rydyn ni'n ei wneud - ITV
[39] Cwestiynau Cyffredin – Sianel Pedwar
[40] Ffi'r drwydded a chyllid - BBC
[41] Archwiliad Cyfryngau Cymru 2015 – Sefydliad Materion Cymreig – 11 Tachwedd 2015
[42] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol i S4C ar Benderfyniad Terfynol ar setliad ffi'r drwydded 2022 – Llywodraeth y DU – 21 Ionawr 2022
[43] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C 2022-23
[44] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol i'r 'BBC ar Benderfyniad Terfynol ar setliad ffi'r drwydded –
21 Ionawr 2022
[45] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol i S4C ar Benderfyniad Terfynol ar setliad ffi'r drwydded 2022 – Llywodraeth y DU – 21 Ionawr 2022

gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o 1 Ebrill 2024 tan ddiwedd cyfnod y setliad (31 Mawrth 2028).[46]

**36.** Gwnaeth elusen The Voice of the Listener and Viewer amcangyfrif yn 2022 bod incwm y BBC wedi gostwng dros 25 y cant mewn termau real ers 2010[47]. At hyn, yn 2019, galwodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Gyfathrebu a Digidol am gyflwyno proses annibynnol ac eglur ar gyfer pennu ffi'r drwydded.[48] Roedd eu cynigion yn cynnwys sefydlu Comisiwn Ariannu'r BBC a fyddai'n ymgynghori â phartïon â diddordeb ar rôl a swyddogaethau'r BBC cyn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ("yr Ysgrifennydd Gwladol").[49]

**37.** Argymhellodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd yn y Pumed Senedd (2016-21) yr hoffai weld (yng nghyd-destun darlledu yn fater a gadwyd yn ôl):

> *"… comisiwn ariannu annibynnol yn cael ei sefydlu â chynrychiolaeth benodol o Gymru. Dylai'r penderfyniadau a wneir gan gorff o'r fath fod yn destun cydsyniad gan gynrychiolwyr o holl wledydd y DU. Dylai'r aelodau o Gymru ar y comisiwn gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru, ac yna dylid cael gwrandawiad cadarnhau gerbron un o bwyllgorau priodol y Senedd."*[50]

**38.** Ym mis Mehefin 2023, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor Materion Cymreig nad oedd yn credu bod dewis arall tebygol yn lle ffi'r drwydded yn y tymor byr i'r tymor canolig.[51]

**39.** Ym mis Rhagfyr 2023, lansiodd Llywodraeth y DU yr hyn a elwir yn "Adolygiad o Fodel Ariannu'r BBC".[52] Fodd bynnag, nid yw cylch gorchwyl yr

---

[46] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol i S4C ar Benderfyniad Terfynol ar setliad ffi'r drwydded 2022 – Llywodraeth y DU – 21 Ionawr 2022
[47] Setliad Ffi Trwydded y BBC – Voice of the Listener and Viewer – 18 Ionawr 2022
[48] Tŷ'r Arglwyddi – Public service broadcasting: as vital as ever – Select Committee on Communications and Digital
[49] Tŷ'r Arglwyddi – Public service broadcasting: as vital as ever – Select Committee on Communications and Digital
[50] Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? – Mawrth 2021
[51] Tystiolaeth lafar – Darlledu yng Nghymru – Pwyllgor Materion Cymreig -Q434 – 28 Mehefin
[52] Adolygiad Model Cyllid y BBC: cylch gorchwyl – Llywodraeth y DU – 7 Rhagfyr 2023

adolygiad yn sôn am S4C, y mae ei chyllid cyhoeddus hefyd yn dod o ffi'r drwydded.[53] Ar yr un diwrnod â'r cyhoeddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai ffi'r drwydded yn cynyddu 6.6 y cant o fis Ebrill 2024.[54]

**40.** Mae Deddf Ddarlledu 1990 yn rhoi dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i ddarparu cyllid digonol ar gyfer S4C.[55] Nid yw'r Ddeddf, er hyn, yn cyfeirio at unrhyw broses y dylid ei dilyn wrth ddod i benderfyniad ynghylch y swm sydd ei angen. Yn 2017, dywedodd S4C:

> *"Mae'r gwendid hwn wedi golygu bod S4C yn agored i doriadau cyfnodol ac wedi caniatáu i ofnau gael eu mynegi ynglŷn â pharhad ymrwymiad y Llywodraeth i'r gwasanaeth."*[56]

## Cyllid ar gyfer S4C

**41.** Dywedodd S4C wrthym fod yn rhaid cael cyllid cynaliadwy ar gyfer S4C dros gyfnod o amser:

> *"Dyw hwn ddim yn ddiwydiant lle gallwch chi newid cyfeiriad o fis i fis— mae angen amser i gynllunio, i gomisiynu dramâu, er enghraifft, peth o'n harlwy pwysicaf ni fel sianel. Mae'r pipeline o gynllunio yn digwydd dros flynyddoedd."*[57]

**42.** Galwodd S4C hefyd am o leiaf yr un lefel o gyllid mewn termau real (h.y. cyfrifo am chwyddiant).[58]

**43.** Eglurodd S4C wrthym ei bod wedi rheoli ei lefelau ariannu presennol drwy flaenoriaethu rhaglenni plant, drama a chwaraeon. Nodwyd ei bod wedi

---

[53] Adolygiad Model Cyllid y BBC: cylch gorchwyl – Llywodraeth y DU – 7 Rhagfyr 2023
[54] Lansio adolygiad o ffi'r drwydded y BBC wrth i gamau a gymerwyd i leddfu'r cynnydd – Llywodraeth y DU
[55] Deddf Ddarlledu 1990
[56] Gwthio'r Ffiniau – Gweledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf – S4C – 7 Ebrill 2017
[57] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 33
[58] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 33

defnyddio cronfeydd wrth gefn dros y ddwy flynedd ddiwethaf ac mai'r her fwyaf oedd yn ei hwynebu oedd costau chwyddiant wrth gynhyrchu dramâu.[59]

**44.** O ran dyraniadau cyllid ar gyfer S4C yn y dyfodol, dywedodd y Gweinidog wrthym y bydd Llywodraeth y DU yn pennu faint o incwm ffi'r drwydded a ddylai fynd i S4C. Nododd efallai nad oedd hon yn gyfran benodol ond y byddai'n destun trafodaethau gydag S4C a'r BBC.[60] Ychwanegodd y canlynol:

> *"I'm conscious that, with an overall pot of money raised by the licence fee, if you give a bit more to S4C, that's a bit less for the BBC, and the BBC are already very unhappy about the extent to which they have been squeezed by the freeze of the last couple of years."*[61]

## Cyllid y BBC

**45.** Dywedodd y BBC wrthym fod angen cynnydd yn ffi'r drwydded er mwyn i'r BBC wasanaethu'r Deyrnas Unedig gyfan:

> *"The BBC has also lost 30 per cent of its income over that decade, and I think support for the licence fee, support for restoring inflation within our licence fee, is a necessity if we are to serve and to proceed with universality, so that we reach every corner of the United Kingdom, whether it's Blaenau Gwent or the Cynon valley, or anywhere else. We need the money. And at some point, I think the UK Government also has to take a decision that it wants a broadcaster of scale operating throughout the world, and then it has to figure out how to pay for it."*[62]

[59] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraffau 15-16
[60] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 78
[61] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 86
[62] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023, paragraff 169

## Ein barn ni

**46.** Fel y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus, nid yw darlledwyr sy'n cael arian cyhoeddus wedi bod yn ddiogel rhag pwysau ariannu'r degawd a hanner diwethaf. Er enghraifft, ers 2010, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau cyllid S4C mewn termau real dros 30 y cant. Mae hwn yn ostyngiad sylweddol. Credwn fod setliad ariannu o'r fath yn cyfyngu'n ddifrifol ar y darlledwr ar adeg pan fo angen ehangu i ddarparu gwasanaethau ar draws llwyfannau darlledu ac ar-alw. Mae angen hyn nid yn unig i ganiatáu i S4C gyflawni ei rhwymedigaethau fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ond hefyd i sicrhau y gall barhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi targed Cymraeg 2050.

**47.** Rydym o'r farn bod angen cynnydd sylweddol yn y cyllid ar S4C. Dylai hyn gynnwys cyllid dangosol am nifer o flynyddoedd. Byddai'r cynnydd hwn mewn cyllid, ac eglurder ynghylch setliadau sydd ar ddod, yn galluogi S4C i gynllunio ei chynnwys yn ddigonol dros nifer o flynyddoedd.

**48.** Rydym hefyd yn meddwl y dylai Llywodraeth y DU ystyried ariannu S4C yn ôl fformiwla. Byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd i'r darlledwr ynghylch cyllid yn y dyfodol. Gallai fformiwla o'r fath gynnwys cysylltu newidiadau ariannu S4C â mesurau chwyddiant megis Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu Fynegai Prisiau Manwerthu, neu gyfeirio at refeniw cyffredinol ffi'r drwydded. Dylai gynnwys mecanwaith glicied er mwyn sicrhau nad yw cyllid S4C yn disgyn yn is na newidiadau costau blynyddol mewn termau real.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth y DU gynyddu cyllid S4C yn sylweddol. Dylai hyn gynnwys cyllid dangosol am nifer o flynyddoedd er mwyn galluogi S4C i gynllunio'n ddigonol ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth y DU ystyried ariannu S4C yn ôl fformiwla, er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i S4C ynghylch cyllid yn y dyfodol. Gallai'r fformiwla hon gynnwys cysylltu cyllid S4C â mesurau chwyddiant fel Mynegai Prisiau Defnyddwyr neu Fynegai Prisiau Manwerthu, neu gyfeirio at refeniw cyffredinol ffi'r drwydded. Dylai gynnwys mecanwaith glicied er mwyn sicrhau nad yw cyllid ar gyfer S4C yn disgyn mewn termau real.

**49.** Roeddem yn synnu nad oedd y cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad Llywodraeth y DU o ffi'r drwydded y BBC yn cyfeirio at S4C, yn enwedig o ystyried bod y sianel yn cael ei hariannu bron yn gyfan gwbl o ffi'r drwydded. Credwn fod yn rhaid i'r adolygiad gymryd tystiolaeth gan S4C. Rhaid i'r adolygiad hefyd gyfeirio'n benodol at gyllid cyhoeddus y darlledwr Cymraeg.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Adolygiad Model Ariannu'r BBC Llywodraeth y DU gymryd tystiolaeth gan S4C. Rhaid i'r adolygiad gyfeirio'n benodol at gyllid cyhoeddus S4C gan fod y darlledwr yn cael ei ariannu'n bennaf o ffi'r drwydded.

# 4. Y BBC

## Perfformiad ariannol

**50.** Yr incwm amcangyfrifedig o ffi'r drwydded a godwyd yng Nghymru yn 2022-23 oedd £187miliwn. Mae hyn £3 miliwn yn is na'r ffigur o £190miliwn yn 2021-22. Fodd bynnag, gwariant gan y BBC yng Nghymru yn 2022-23 oedd £208miliwn, a oedd £20miliwn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol (ffigur 2021-22 o £188miliwn).[63]

**51.** Yn ôl ein cyfrifiadau, mae hyn yn golygu bod cyfanswm gwariant y BBC yng Nghymru 11 y cant yn fwy yn 2022-23 na'r incwm amcangyfrifedig a gafodd y BBC gan Gymru. Fodd bynnag, roedd 1 y cant yn is yn 2021-22. O ran y ffigur is hwn, dywedodd y BBC wrthym:

> *"That year was a very unusual year where the BBC spent, I think, £2 million less than it raised in the licence fee. And I believe that was COVID related. Of course, we had no live events, no live sport, and so forth. So, it was a very difficult time to manage. But, of course, it was unusual. If we look across a number of years, the situation's been very, very different."*[64]

## Gwariant rhwydwaith yng Nghymru

**52.** Yn 2022-23 roedd £72 miliwn o wariant ar gynnwys rhwydwaith yng Nghymru, cynnydd o 26 y cant ers 2021-22.[65] Yn ôl telerau ei drwydded weithredu gydag Ofcom, rhaid gwario o leiaf 5% o wariant y BBC ar raglenni rhwydwaith y DU yng Nghymru (yn 2022 y ffigur gwirioneddol oedd 5.4 y cant). [66] Mae hyn yn dilyn strategaeth a ddilynwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol blaenorol i symud cynhyrchu allan o Lundain.

[63] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23
[64] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023, paragraff 102
[65] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23
[66] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023

**53.** Esboniodd y BBC ei strategaeth o symud gweithgaredd y tu allan i Lundain:

> *"We're in the opposite position to moving the BBC's power, resources and money towards London. That's exactly the opposite of the strategy I've set. In fact, the 'across the UK' plan, if I may— and I will be defensive on this, because we've pushed £700 million out— . There's more drama happening in Wales than ever before."*[67]

**54.** Dywedwyd wrthym fod canlyniad arall i'r dull hwn yn golygu y gallwch fod yn olygydd ar lefel rhwydwaith wrth weithio mewn ystafell newyddion yng Nghaerdydd, yn hytrach na Llundain. Roedd y BBC o'r farn bod hyn yn drawsnewidiol o safbwynt datblygu gyrfa.[68]

**55.** Gwnaethom hefyd drafod gydag Ofcom bryderon ynghylch gohebu anghywir am gwmnïau yng Nghymru at ddibenion gofynion rhwydwaith gwneuthuredig y BBC yng Nghymru. Dywedodd Ofcom wrthym, unwaith y bydd ganddo dystiolaeth o hyn, y bydd yn adolygu'r sefyllfa.[69]

## Cynnwys teledu lleol

**56.** Rhwng 2006-07 a 2014-15, gostyngodd gwariant BBC Cymru Wales ar allbwn teledu Saesneg i gynulleidfaoedd yng Nghymru o £24.6 miliwn i £20.8 miliwn.[70] Arweiniodd hyn at feirniadaeth gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.[71] Ym mis Mai 2016, cydnabu'r BBC bod hyn yn broblem:

[67] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 19
[68] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 19
[69] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref – paragraff 323
[70] Y Darlun Mawr – Barn Gychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru – Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Chwefror 2017
[71] Y Darlun Mawr Safbwyntiau Cychwynnol y Pwyllgor ar Ddarlledu yng Nghymru – Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Chwefror 2017

> *"the funding for English language content made in Wales for a Welsh audience has dropped to unsustainable levels"*.[72]

**57.** Yn dilyn hyn, ym mis Chwefror 2017, cyhoeddodd y BBC y byddai'n gwario £8.5miliwn ychwanegol y flwyddyn ar raglenni Saesneg yng Nghymru. Dywedodd ei fod yn disgwyl cyrraedd £30 miliwn y flwyddyn erbyn 2019-20.[73] Ar y pryd, nod y BBC oedd y dylid darlledu o leiaf hanner y rhaglenni ychwanegol ar sianeli rhwydwaith y BBC yn y DU hefyd.[74] Mae tariffau'r BBC yn darparu ystod o brisiau dangosol ar gyfer cyflenwi rhaglenni teledu a gomisiynir.[75] Yn nodweddiadol, mae'r rhain yn is ar gyfer cynnwys a gomisiynwyd ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau yn hytrach na rhwydwaith y DU. Fodd bynnag, nid yw'n glir a yw'r BBC, drwy gomisiynu cynnwys ar gyfer BBC Cymru, a'i ddarlledu wedyn ar rwydwaith y DU, yn talu llai i gwmnïau cynhyrchu am gynnwys a ddarlledir ar rwydwaith y DU na phe baent wedi ei gomisiynu'n uniongyrchol ar gyfer rhwydwaith y DU.

**58.** Yn 2022-23, cyfanswm y gwariant ar gynnwys teledu lleol (h.y. cynnwys teledu i gynulleidfaoedd Cymreig a ddarlledwyd ar BBC One a Two) oedd £36miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 3 y cant ers 2021-22, ac yn uwch na tharged y BBC o £30miliwn erbyn 2019-20.[76] Mewn ymateb i hyn, dywedodd y BBC wrthym:

> *"We have managed to increase our spend on English-language television last year, and this year I believe we'll see further growth. And that's really my aim: if I've got a target, it's year-on-year growth."*[77]

[72] Llythyr at y Prif Weinidog – Y BBC yn y gwledydd datganoledig – 12 Mai 2016
[73] BBC i gynyddu buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer Cymru 50 y cant – BBC Media Centre –
21 Chwefror 2017
[74] BBC i gynyddu buddsoddiad mewn rhaglenni ar gyfer Cymru 50 y cant – BBC Media Centre –
21 Chwefror 2017
[75] Ystod tariffau'r BBC o brisiau dangosol ar gyfer cyflenwi rhaglenni teledu a gomisiynir
[76] BBC Group Annual Report and Accounts 2022-23
[77] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 107

## Gwahaniaeth yn y gyllideb rhwng Cymru a'r Alban

**59.** Gwneir cymhariaeth yn aml rhwng cyllid y BBC yng Nghymru ac yn yr Alban – sydd â sianel sy'n darlledu cynnwys yn benodol ar gyfer yr Alban. Cafodd BBC Scotland ei chyhoeddi gan y BBC ym mis Chwefror 2017, â chyllideb flynyddol arfaethedig o £30 miliwn (£19 miliwn o arian newydd, ac £11 miliwn o raglenni a wnaed yn flaenorol ar gyfer BBC Two yn yr Alban). [78]

**60.** Ym mis Medi 2018, dywedodd BBC Cymru Wales wrth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd y byddai cyllideb BBC Scotland bron yn union yr un fath â chyllideb BBC Cymru Wales ar gyfer teledu Saesneg, gan nodi: [79]

> *"I think it is absolutely appropriate that there is asymmetry in terms of how different nations want to spend their money. The view that we took very, very clearly was two things. One, that the market is moving, so the rise of on-demand players is very significant and we want to play big on the on-demand players. What do we know works there? We know that drama works there. So, that's why Hidden, Requiem and Keeping Faith have their combined requests on iPlayer, to date, at 37 million. Drama is expensive but it plays well. Comedy plays; we've got a big season of comedy launching next week. The other thing we wanted to do is we wanted to put our content where the biggest audiences are. So, we deliberately focused in Wales on BBC One and we focused on getting our content particularly onto BBC Two at a UK level. So, all our focus is on delivering quality, raising the bar and getting our output to the biggest audiences.*
>
> *When we talked about a channel in Wales, the issue that we came up with in Wales is (a) there isn't audience demand, and you need to listen to and respect where audiences are, but the second thing was that— and S4C have to grapple with this— filling channels requires certain levels of volume, and I don't think we're really— we don't want to be in the volume game, we want to be absolutely in a quality place. The reason Nick increases tariffs and the reason he can invest more in*

[78] Sianel deledu newydd ar gyfer y BBC yn yr Alban – BBC News – 2 Chwefror 2017
[79] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – 26 Medi – paragraff 94

> *comedy and drama is because he doesn't have to fill schedules. So, we have taken a different route from Scotland, but I suspect, in terms of the audience return, for audiences here in Wales, and for getting us on the network, it's the right approach for us*."[80]

**61.** Yn 2022-23, cafodd BBC Scotland £35 miliwn. Mae hyn ychydig yn llai na gwariant y BBC ar gynnwys teledu lleol Saesneg yng Nghymru (£36 miliwn).[81] Mae 13 y cant o'r boblogaeth yn gwylio BBC Scotland bob wythnos ar gyfartaledd.[82] Fodd bynnag, yn 2022-23 roedd gwariant ar gynnwys lleol ar gyfer BBC One yn yr Alban yn £37 miliwn.[83] Mae hyn yn golygu bod cyfanswm y gyllideb ar gyfer cynnwys teledu Saesneg yn yr Alban (BBC Scotland a chynnwys lleol ar gyfer BBC One) ddwywaith cymaint â Chymru (£72 miliwn o gymharu â £36 miliwn).

**62.** Yn ystod ein sesiwn tystiolaeth lafar gyda'r darlledwr, dywedodd y BBC wrthym, er gwaethaf lefelau uchel o wariant ar deledu Saesneg yn yr Alban, fod llai o arian yn nodweddiadol yn cael ei wario yn yr Alban nag a godwyd.[84] Eglurodd y BBC hefyd ei benderfyniad i beidio â chael sianel Saesneg ar wahân yng Nghymru (fel sydd yn yr Alban):

> *"So, there was a deliberate decision to go for high impact programming, in particular, drama, so as to create in Wales a creative sector and an expertise and a centre of excellence for a particular genre, which I think we have managed. And, in that, in the Keeping Faith, in the Steeltown Murders, in everything we've seen on screen, there has been significant representation. And that representation, unlike the Scottish channel, actually goes out to the whole of the UK*

[80] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – 26 Medi – paragraffau 96 - 97
[81] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23
[82] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23
[83] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23
[84] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 112

> *so that there is a greater understanding of what Wales looks like and feels like."*[85]

## Cynrychiolaeth cynulleidfaoedd

**63.** Yn 2019, dywedodd Ofcom wrth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd fod cynulleidfaoedd yng Nghymru yn teimlo y dylai'r BBC wella ei chynrychiolaeth a'i phortread o fywyd Cymru.[86] Fel rhan o'n hymchwiliad, dywedodd Ofcom:

> *"A couple of things we highlighted in our last review of the BBC were around how well the BBC was serving the lower socioeconomic groups, some of the poorer families— and that includes those in Wales— and disabled audiences. And, so, that was an area of focus for us. We've also acknowledged the BBC's Across the UK plans and the hopes that that will deliver, both on and off screen— better strength and breadth in the production side, but also what audiences see on their screens over the coming years".*[87]

**64.** Mae arolwg barn y BBC yn dangos mai dim ond 50 y cant o oedolion yng Nghymru sy'n meddwl bod y BBC yn adlewyrchu pobl fel nhw yn effeithiol.[88]

## Effaith y BBC ar newyddion masnachol lleol

**65.** Holwyd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, Tim Davie, am effaith gwasanaethau'r BBC ar newyddion lleol masnachol:

> *"We consider it deeply, and I'm not interested in the BBC not being part of a thriving, plural, creative industries. And I have the deepest respect, by the way, for operations like Reach; WalesOnline is an excellent service. You'll never hear me criticise what I know are*

[85] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023 – paragraff 135
[86] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol – 20 Tachwedd 2019 – paragraff 41
[87] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 171
[88] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Grŵp y BBC 2022-23

> *outstanding services that provide excellent journalism. We have a record— I mean, personally, you know, slightly defensively— in radio, opening up digital audio broadcast, that, actually, we don't need, necessarily, a share. So, we don't need to be 90 per cent of the market or 80 per cent; that's not what we want. We want to be part of a plural market. All I need is enough of people's time to justify the licence fee."*[89]

## Ein barn ni

**66.** Rydym yn croesawu strategaeth y BBC i ledaenu gweithgarwch ledled y DU. Mae'r twf hanesyddol yng ngwariant rhwydwaith y BBC yng Nghymru wedi bod yn gatalydd ar gyfer cynhyrchu teledu a ffilm yn ehangach, ac mae Cymru bellach yn gartref i sector sgrin ffyniannus. Rydym hefyd yn rhannu dyhead y BBC na ddylai staff y BBC orfod gadael Cymru i ddatblygu eu gyrfaoedd. Er y bydd hyn o fudd i Gymru, bydd hefyd o fudd i'r BBC drwy ei gysylltu'n gryfach â'r cynulleidfaoedd y mae'n eu gwasanaethu y tu allan i'r M25.

**67.** Credwn hefyd ei bod yn briodol bod y BBC yn ymdrin â'i ddarpariaeth ar gyfer gwledydd y DU mewn ffyrdd sy'n gweddu orau i fuddiannau'r gwledydd hynny. Felly, nid oes gennym wrthwynebiad egwyddorol i benderfyniad y BBC i beidio â chael sianel deledu Saesneg ar wahân yng Nghymru fel sydd yn yr Alban. Nid ydym yn credu, er hyn, ei bod yn briodol bod gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg yn yr Alban ddwywaith y ffigur cyfatebol yng Nghymru.

**68.** Ni ellir cyfiawnhau'r anghysondeb hwn ar sail lefelau refeniw ffi'r drwydded a godir yn y ddwy wlad. Byddai gwneud hynny yn golygu y dylai gwylwyr yng Nghymru gael gwasanaeth gwaeth yn gyfnewid am fyw mewn cenedl â phoblogaeth lai. Yn yr un modd, ni ellir cyfiawnhau'r anghysondeb hwn drwy nodi gwariant o ffi'r drwydded ar S4C yng Nghymru: byddai gwneud hynny'n golygu y dylai gwylwyr Saesneg gael gwasanaeth gwaeth yn gyfnewid am fyw mewn cenedl ddwyieithog.

[89] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 60

**69.** Rydym yn croesawu datganiad y BBC mai ei darged ar gyfer gwariant teledu Saesneg yng Nghymru yw twf o’r naill flwyddyn i’r llall. Byddwn yn monitro gwariant yn y maes hwn yn unol â'n hargymhelliad isod.

**Argymhelliad 7.** Dylai gwariant y BBC ar gynnwys teledu Saesneg yng Nghymru dyfu o'r naill flwyddyn i'r llall nes ei fod yn cyd-fynd â gwariant y BBC ar gynnwys Saesneg yn yr Alban. Dylai’r BBC amlinellu i’r Pwyllgor hwn sut y bydd yn cyflawni hyn.

**70.** Mae gan y BBC waith i'w wneud hefyd er mwyn sicrhau bod pobl ledled Cymru yn teimlo eu bod yn cael eu cynrychioli gan y gwasanaethau y maent yn eu cael. Mae maint yr her hon yn glir gan mai dim ond hanner poblogaeth Cymru sy’n meddwl bod y BBC yn adlewyrchu pobl fel nhw. Rydym yn obeithiol y bydd gwell cynrychiolaeth yn un o ganlyniadau cynlluniau Ar Draws y DU y BBC. Rhaid i’r BBC fod yn uchelgeisiol yn y cynlluniau hyn, ac mae angen i Ofcom fod yr un mor uchelgeisiol yn yr hyn y mae’n gofyn amdano gan y darlledwr.

**Argymhelliad 8.** Dylai Ofcom fod yn uchelgeisiol wrth ddefnyddio ei ddull o reoleiddio’r BBC i ysgogi gwelliannau i gynrychiolaeth a phortread y BBC o bobl yng Nghymru. Dylai’r BBC ac Ofcom adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwn cyn diwedd y Chweched Senedd i adrodd ar ei gynnydd.

# 5. S4C

## Trawsnewid digidol

**71.** Mae S4C, fel pob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, dan bwysau i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol i'r amrywiaeth yn y defnydd o gyfryngau sy'n digwydd ar hyn o bryd. Dywedodd S4C wrthym mai'r her y mae'n ei hwynebu yn hyn o beth yw mynd i fannau lle mae pobl ifanc yn defnyddio ei chyfryngau. O ran ei gweithgarwch digidol, dywedodd wrthym:

> *"Roedd ffigurau Clic y flwyddyn ddiwethaf wedi mynd lawr; maen nhw nawr yn cynyddu eleni. Rŷm ni wedi gwneud lot o waith ar Clic er mwyn gwella'r platfform a gwneud e'n lot mwy user friendly, fel bydden ni'n dweud. So, mae yna lot o waith, oherwydd y setliad gawsom ni— y £7.5 miliwn— wedi bod yn mynd mewn i Clic. Rŷm ni hefyd wedi bod yn hyrwyddo iPlayer gyda Clic yn wahanol dros y flwyddyn ddiwethaf, achos does dim ots gyda ni le mae pobl yn dod at y cynnwys— eu bod nhw'n defnyddio'n platfformau ni. Pan fydd y Ddeddf cyfryngau'n dod, bydd Clic lot yn fwy amlwg. Ar hyn o bryd, mae iPlayer yn lot fwy amlwg na Clic. So, mae yna ffactorau'n fanna. Ond mae pethau fel YouTube wedi dyblu gyda ni o ran oriau gwylio, so mae'n hynod o galonogol bod pobl yn dechrau dod atom ni ar y platfformau iawn. Mae gwaith gyda ni'n dal i'w wneud ar Clic, a bydd hwnna'n gwella. Rŷm ni nawr ar Freeview ac rŷm ni lot yn fwy amlwg nawr nag oeddem ni. So, mae yna waith gyda ni i'w wneud ar hwnna."*[90]

## Yr effaith economaidd

**72.** Yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2022-23, mae S4C yn nodi mai un o'i hamcanion dros y blynyddoedd nesaf yw sicrhau dosbarthiad mwy cytbwys o wariant cynnwys ar draws gwahanol rannau o'r wlad. Fel y mae, mae'r rhan fwyaf

[90] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 130

o'r gwariant hwn (55 y cant) yn ardal De Cymru.[91] Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'n llawn yr effaith economaidd a wnaed gan y darlledwr:

> *"... mae'r rhifau yn adlewyrchu lle mae pencadlys y 52 o gwmnïau cynhyrchu rŷn ni'n delio â nhw. Dyw e ddim yn adlewyrchu lle ŷn ni'n ffilmio. So, er enghraifft, rŷn ni yn Llanelwedd ac yn y gogledd. So, mae lle mae ein harian ni neu le mae'r economi yn cael budd o S4C ddim yn cael ei adlewyrchu yn y rhifau yma."*[92]

**73.** Mae S4C wedi cydnabod yr angen iddi ddosbarthu ei gwariant ar gynnwys yn well a symud i lefydd fel Gogledd-ddwyrain a Gorllewin Cymru.[93]

## Darlledu chwaraeon

**74.** Mae ffigurau gwylio chwaraeon yn gyson ymhlith rhaglenni mwyaf poblogaidd S4C.[94] Dywedodd S4C wrthym mai'r mater pwysicaf gyda rhaglenni chwaraeon yw ei fod yn denu gwylwyr newydd, sy'n dysgu Cymraeg ac nad ydynt yn siarad yr iaith, i wylio chwaraeon ar S4C.[95] Dywedwyd wrthym hefyd fod darlledu chwaraeon merched yn bwysig i'w cynulleidfaoedd ac yn rhan hanfodol o'i strategaeth.[96]

**75.** Gwnaethom hefyd drafod yr heriau o gadw gemau pêl-droed rhyngwladol Cymru am ddim i'w ddarlledu ar S4C:

> *"Mae'r FAW yn hanfodol hefyd yn ein helpu ni gyda'r trafodaethau gyda Viaplay, a hefyd UEFA. So, roedd yna bedwar ohonom ni'n*

---

[91] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon S4C 2022-23
[92] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 64
[93] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 65
[94] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 101
[95] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 102
[96] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 105

> *gwneud yn siŵr, ac maen nhw'n deall mor bwysig ydy e yng Nghymru. Ac mae hynny lan i chi hefyd fel Llywodraeth, neu fel Aelodau Seneddol— rydych chi wedi bod yn lobïo. So, mae yna lot o bethau wedi dod i ni gael hwnna, ac mae hwnna wedi bod yn digwydd ers tipyn. So, dwi'n eithaf balch o'r ffordd rŷn ni'n dechrau symud hwnna ymlaen."*[97]

## Ein barn ni

**76.** Fel llawer o gyfryngau traddodiadol, mae gan S4C her fawr o ran darparu cynnwys digidol sy'n ymateb i arallgyfeirio arferion defnyddio'r cyfryngau. Fel yr unig ddarparwr cynnwys fideo Cymraeg, er mwyn parhau i fod yn berthnasol i gynulleidfaoedd iau, mae angen i S4C fod ble bynnag y mae ei chynulleidfaoedd. Mae'r her hon yn tanlinellu'r angen am feiddgarwch gan y darlledwr, wedi'i ategu gan gyllid digonol.

**77.** - Mae gan S4C hefyd nod clodwiw o sicrhau dosbarthiad mwy cyfartal o wariant ar gynnwys ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r gwariant (55 y cant) yn ne Cymru. Credwn fod angen i S4C gynyddu ei hymdrechion i ledaenu'r gwariant hwn ar draws y wlad, mater y mae S4C yn cydnabod bod angen iddi fynd i'r afael ag ef. Byddwn yn awyddus i fonitro llwyddiant y darlledwyr wrth gyflawni lledaeniad tecach o wariant ar draws y wlad.

**Argymhelliad 9.** Dylai S4C sicrhau bod gwariant ar gynnwys yn cael ei ddosbarthu'n fwy cyfartal ledled Cymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn.

**78.** Roedd sesiwn dystiolaeth y Pwyllgor gydag S4C ar gyfer yr ymchwiliad hwn cyn cyhoeddi'r Adroddiad Capital Law i amgylchedd gwaith ac awyrgylch S4C. Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, cynhaliwyd sesiwn graffu gydag aelodau Bwrdd S4C (11 Ionawr 2024).[98] Yn dilyn y sesiwn hon, gwnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd

[97] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 112
[98] Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol – 11 Ionawr 2024

Gwladol dros Ddiwylliant, Chwaraeon y Cyfryngau yn amlinellu ein canfyddiadau.[99]

[99] Llythyr at yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Honiadau am fwlio yn S4C – 11 Ionawr 2024 [PDF 272 KB]

# 6. ITV

## Trwydded Sianel 3 yng Nghymru

**79.** Ledled y DU, ceir 15 o drwyddedau Sianel 3 rhanbarthol, sy'n disgrifio'r telerau y mae'n rhaid i berchennog y drwydded weithredu yn unol â hwy. Heblaw am y ddwy drwydded Albanaidd – sy'n eiddo i STV – mae pob un o'r trwyddedau hyn yn eiddo i ITV.[100]

**80.** Mae trwydded Sianel 3 Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn rhai newyddion i Gymru bob wythnos.[101] Adnewyddwyd y drwydded hon yn 2014 am ddeng mlynedd.[102]

**81.** Hyd at 2014, roedd Cymru yn cael ei gwasanaethu gan drwydded Sianel 3 ddeuol a oedd hefyd yn cwmpasu Gorllewin Lloegr. Fodd bynnag, bu gostyngiad mawr yng nghynnyrch ITV ar gyfer Cymru yn 2009. Roedd ail Adolygiad Ofcom o Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn caniatáu ar gyfer gostyngiad o'r fath. Caniatawyd y gostyngiadau hyn ar y pryd gan Ofcom, gan fod ofn y byddai ITV yn dewis ildio ei statws fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, ac yn ei dro yn dychwelyd ei drwyddedau Sianel 3.[103] Yn 2014, rhoddwyd ei drwydded ei hun i'r gwasanaeth Sianel 3 i Gymru, sy'n rhedeg hyd at 2024.[104]

**82.** Mae'r trwyddedau presennol ar gyfer Sianel 3 i fod i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2024. Mae gan ddeiliaid trwydded yr hawl i adnewyddu eu trwyddedau am gyfnod pellach o ddeng mlynedd (2025 i 2035).[105] Fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, rhaid iddynt fodloni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus drwy ddarparu rhaglenni amrywiol o ansawdd uchel. Mae trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 yn cynnwys rhwymedigaethau penodol yn ymwneud â chwotâu

[100] Channel 3 (ITV, STV ac UTV) - Ofcom
[101] Archwiliad Cyfryngau Cymru 2015 – Sefydliad Materion Cymreig – 11 Tachwedd 2015
[102] Hysbysiad adnewyddu Cymru – 19 Chwefror 2014
[103] Archwiliad Cyfryngau Cymru 2015 – Sefydliad Materion Cymreig – 11 Tachwedd 2015
[104] Trwydded Sianel 3 Ranbarthol Cymru – Ofcom – 23 Rhagfyr 2020
[105] Ail-drwyddedu trwyddedau Channel 3 a Channel 5 – Ofcom – 19 Medi 2023

rhaglenni a chynhyrchu.[106] Mae Ofcom yn disgwyl cyhoeddi penderfyniad terfynol ar ddechrau 2024. [107] Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cadarnhau nad oes unrhyw fwriad i atal adnewyddu trwyddedau Sianel 3 a 5, na defnyddio unrhyw bŵer i ddiwygio'r gofynion sydd ynghlwm wrthynt.[108]

**83.** Dywedodd ITV wrthym, oherwydd newidiadau yn y ffordd y mae pobl yn defnyddio eu cyfryngau, fod y trwyddedau'n llai gwerthfawr:

> *"We've seen over the last five, 10 years or so, since the last licences were granted, a drift away from consumption of broadcast linear television, and that's had two effects. It's reduced the value of DTT capacity. So, we know that, to buy capacity for a channel on terrestrial television, on Freeview, the price to do that has gone down a lot, and, therefore, the benefit of having that spectrum for free has gone down too. And the value of prominence, arguably, has gone down, because, essentially, fewer people are using a linear grid electronic programme guide that you would expect to find on a traditional television set— so, literally, channel 1, channel 2, channel 3. Fewer people are accessing their content in that way. They're using apps, they're using all sorts of other methods of finding content, and the result of that is that the prominence is therefore less valuable. So, in aggregate, because of changing consumption habits, the licences are less valuable. But the truth is that's the history of ITV since competition was introduced, if you like, because the licence, originally, literally gave you a monopoly, because there was no other commercial competition back in the 1950s and 1960s, and so the trajectory has been about introducing competition to ITV, which, inevitably, has eroded the value of the licence over time."*[109]

[106] Methodoleg Ofcom ar gyfer adolygiad o delerau ariannol trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 – 19 Medi 2023
[107] Methodoleg Ofcom ar gyfer adolygiad o delerau ariannol trwyddedau Sianel 3 a Sianel 5 – 19 Medi 2023
[108] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i Ofcom ar adnewyddu trwyddedau Sianel 3 a 5 – 29 Mawrth 2023
[109] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023 – paragraff 263

**84.** Roedd ITV Cymru Wales, er hyn, yn awyddus i bwysleisio gwerth cyhoeddus sylweddol trwydded Sianel 3 i Gymru:

> *"Mae'r hyn y mae'r drwydded yn ei ddarparu yng Nghymru yn wirioneddol fawr ac arwyddocaol. Rydym yn creu newyddion a rhaglenni, cynnwys gwasanaeth cyhoeddus, na fyddai'r farchnad yn eu darparu fel arall. Oherwydd mai ITV ydyw, rydym yn dod â chynulleidfa dorfol i hynny."*[110]

**85.** Nododd ITV y dylai'r Mesur Cyfryngau atal rhywfaint o'r dirywiad yng ngwerth trwydded Sianel 3 oherwydd y cymalau amlygrwydd sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.[111]

**86.** Dywedodd Ofcom wrthym, pan oedd gan ITV fonopoli mewn refeniw hysbysebu, fod gofynion beichus yn cael eu gosod arno yn gyfnewid amdano. Dywedwyd wrthym:

> *"… the market has not been able to sustain that system in the face of the digital revolution and the mass of channels and the competition that exists today. So, we can't go back to that…Fortunately, we have the BBC, with the licence fee, which compensates for that, and the BBC, which used to be London-centric— it was the national broadcaster from London— is now moving more and more out of London, into Wales, into Scotland, into the north, the midlands, the west and so on. So, that's kind of where we are, and we shouldn't pretend that we can buck the market and start imposing all kinds of onerous licence conditions on commercial broadcasters who are in a real struggle to sustain their business models, which are severely challenged."*[112]

---

[110] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 264
[111] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Tachwedd 2023 – paragraff 294
[112] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 296 - 297


**87.** Dywedodd Ofcom wrthym hefyd fod trwydded Sianel 3 yng Nghymru:

> *"Broadly in the right place in terms of sustainability and delivering to those audiences that do choose to go to ITV Cymru as their first port of call."*[113]

## Cynnwys rhwydwaith a gwariant yng Nghymru

**88.** Mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, yn rhan o amodau eu trwydded, yn cael cwotâu ar gyfer rhaglenni a ddarlledir am y tro cyntaf ar rwydwaith y DU sy'n cael eu gwneud y tu allan i Lundain. Mae gan y BBC gwotâu unigol – ar gyfer gwerth ac oriau cynnwys rhwydwaith – ar gyfer pob un o genhedloedd y DU, a ddaeth i rym eleni, ac mae gan Sianel 4 gwota y tu allan i Loegr hefyd. Mae gan ITV ofyniad ehangach i wneud 35 y cant (o ran cost ac oriau) y tu allan i'r M25. [114]

**Cyfran y cynyrchiadau rhwydwaith cymwys yng Nghymru, yn ôl darlledwr gwasanaeth cyhoeddus: 2017-2022 (fel canran)**[115]




**89.** Mae'r data yn adroddiad Ofcom, Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023, yn dangos bod gwariant rhwydwaith y DU ITV yng Nghymru yn 2022 wedi plymio i bron i 0

[113] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 257
[114] Trwydded Sianel 3 Ranbarthol Cymru – Ofcom – 23 Rhagfyr 2020
[115] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023

y cant o'u gwariant cymwys yn y DU. Yn y blynyddoedd diwethaf, roedd y ffigur hwn yn uwch na 5 y cant.[116] Mae gwariant cymwys yn cynnwys yr holl gostau yr eir iddynt gan y darlledwr wrth wneud rhaglenni.

**90.** Cyfryngau'r Genedl 2019 Ofcom (Adroddiad Cymru).

> *"Gostyngodd cyfran yr oriau a'r gwariant cymwys a ddyrannwyd i Gymru gan ITV yn 2022. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod I'm a Celebrity…Get Me Out of Here! wedi cael ei adleoli dros dro yn 2021, a ddychwelodd i ffilmio yn Awstralia ar ôl llacio'r cyfyngiadau teithio ar ôl pandemig Covid-19."*[117]

**91.** Argymhellodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd fod trwydded Sianel 3 yng Nghymru yn cynhyrchu cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith y DU yng Nghymru.[118]

**92.** O ran gwariant rhwydwaith, dywedodd ITV wrthym:

> *"These numbers do fluctuate over time, and I have given you a few examples of a couple of dramas that we have commissioned from Bad Wolf. Drama is a big number, inevitably, and, as I say, we have got two big commissions with Welsh drama producers— one about to launch, which will be in this year's numbers, I would imagine. We are also filming substantial amounts in Wales."*[119]

**93.** O ystyried y gostyngiad yng ngwariant cymwys ITV yng Nghymru, gofynnwyd am farn y rheoleiddiwr a Llywodraeth y DU ar hyn.

**94.** Dywedodd Ofcom wrthym y byddai pandemig Covid-19 wedi effeithio ar wariant 2022.[120] Fodd bynnag, nid ydym yn glir at ba effeithiau y maent yn

---

[116] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[117] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[118] Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Mawrth 2021
[119] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 –paragraff 331
[120] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraffau 275 a 285

cyfeirio oherwydd erbyn dechrau 2022, roedd y rhan fwyaf o Gymru wedi ailagor yn llawn yn dilyn cyfnodau cloi amrywiol a rheoliadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i'r pandemig.

**95.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog a oedd yn credu ei bod yn briodol bod gwariant cymhwysol ITV yng Nghymru wedi gostwng i bron i 0 y cant. Dywedodd wrthym:

> *"I would hope that that's something that ITV would want to address. I mean, you can't say that every part of the UK has to have a proportion of production that exactly matches the proportion of the population. But, from what you say, that's quite a long way from that, and therefore that is something that— . I mean, ITV have a studio here, so I hope that's something that they will be addressing."*[121]

**96.** Pan wnaethom ofyn i ITV am ei farn ar argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ar gynyddu gwariant yng Nghymru, dywedwyd wrthym:

> *"I don't think we would want to have more obligations when we have an awful lot of obligations already of a whole variety of different sorts, and there are constraints on flexibility."*[122]

**97.** Yn ôl cyflwyniad ar ei ganlyniadau blwyddyn lawn ar ddiwedd 31 Rhagfyr 2022, mae ITV wedi gwneud dros £500m mewn elw gweithredu statudol yn gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (heblaw am 2020).[123]

---

[121] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 96
[122] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 329
[123] Canlyniadau blwyddyn lawn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Rhagfyr 2022 – ITV – 2 Mawrth 2023

## Cynnwys teledu lleol

**98.** Fel yr amlinellwyd eisoes, mae trwydded Sianel 3 Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i ITV ddarparu pedair awr o newyddion a 90 munud o raglenni nad ydynt yn rhai newyddion i Gymru bob wythnos. [124]


### Cymharu gofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn trwyddedau Sianel 3 ledled y DU[125]

| Channel 3 licence | Regional news | Regional non-news | Regional current affairs |
|---|---|---|---|
| **Wales** | **4 hours** | **1 hour and 30 minutes** | **47 minutes** |
| 11 English regional licences | Varies from 42 mins – 3 hours and 5 minutes | Varies from 3 – 15 minutes | None |
| STV (Central and North) | 4 hours | 1 hour and 30 minutes | 33 minutes |
| Northern Ireland | 4 hours | 2 hours | 33 minutes |

**99.** Mae gwariant ITV Cymru Wales ar gynnwys i Gymru wedi aros yn debyg ers 2017, ond gostyngodd o £6.1 miliwn yn 2017 i £5.7 miliwn yn 2022.[126]

[124] Archwiliad Cyfryngau Cymru 2015 – Sefydliad Materion Cymreig – 11 Tachwedd 2015
[125] Llythyr gan Ofcom at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Darlledu gwasanaeth cyhoeddus – 23 Hydref 2023
[126] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023

**Gwariant y BBC ac ITV Cymru Wales ar gynnwys gwreiddiol o'r DU ac sy'n cael ei ddangos am y tro cyntaf heb fod ar y rhwydwaith ar gyfer Cymru: 2017-2022 (£m)**[127]




**100.** Ar adeg ein hymchwiliad, nid oedd chwaraewr ar-lein ITV – ITVX – yn cynnwys categori ar gyfer cynnwys cwbl Gymreig. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym y byddai hyn yn newid:

> *"… in a few weeks' time, we're very hopeful that we'll have ITV Wales programming on ITVX. I think that's a really significant step, and I hope that will be quickly followed by the regionalisation of ITVX, and you'll be able to watch ITV Cymru Wales live on ITVX."*[128]

## Ein barn ni

**101.** Mae trwydded Sianel 3 yn cynrychioli cydbwysedd bregus rhwng hawliau a rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Rydym yn gwerthfawrogi bod natur fasnachol trwydded Sianel 3 yn cyfyngu ar y graddau y gall osod rhwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar ddeiliad y drwydded. Un o

[127] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[128] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 258

effeithiau'r Bil Cyfryngau, er hyn, fydd cryfhau gwerth trwydded Sianel 3, drwy ddarparu amlygrwydd ar lwyfannau ar-lein.

**102.** Cawsom ein synnu braidd gan y gostyngiad yng ngwariant cymhwyso ITV yn 2022. O ganlyniad, rydym yn meddwl y gallai Ofcom ofyn am fwy gan ddeiliad trwydded Sianel 3 yng Nghymru ar wariant rhwydwaith yng Nghymru. Wrth i ITV elwa ar yr arbedion maint gweithredu ar draws y DU, mae'n deg bod Cymru yn gweld mwy o'r manteision hyn hefyd. O ystyried y sector cynhyrchu teledu ffyniannus yng Nghymru, ni fyddai'r gofyniad hwn yn ormod o faich i'r darlledwr.

**Argymhelliad 10.** Dylai Ofcom gynnwys gofyniad i drwydded Sianel 3 yng Nghymru gynhyrchu cyfran uwch o gynnwys rhwydwaith yng Nghymru. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn.

**103.** Mae awgrym Ofcom mai canlyniad y pandemig oedd lefel isel gwariant ITV yng Nghymru yn 2022 yn ein drysu, o ystyried y graddau cyfyngedig yr oedd cyfyngiadau ar gynhyrchu teledu ar waith y flwyddyn honno. Nid yw diffyg ymwybyddiaeth uwch-reolwyr o ystadegyn trawiadol am ddarlledu yng Nghymru, o adroddiad Ofcom ei hun, yn helpu i roi ffydd bod y rheolydd yn cyflawni dros Gymru.

# 7. Sylw a roddir i faterion datganoledig ar newyddion y DU

**104.** Yn 2022, cyhoeddodd Ofcom ymchwil yr oedd wedi'i gomisiynu gan yr Athro Stephen Cushion o Brifysgol Caerdydd a Dr Richard Thomas o Brifysgol Abertawe. Edrychodd yr ymchwil hon ar ba mor dda y mae darparwyr newyddion rhwydwaith y DU yn adrodd ar faterion polisi datganoledig ar deledu ac ar-lein.[129]

**105.** Canolbwyntiodd yr astudiaeth ar adrodd ar yr ymateb i bandemig Covid-19, gyda gwahanol ddulliau o ymdrin â pholisi iechyd y cyhoedd ym mhedair gwlad y DU. Edrychodd ar fwletinau newyddion teledu a ddarlledwyd ar y BBC, ITV, Channel 4, Channel 5 a Sky News, yn ogystal â gwefannau newyddion y DU ar y BBC, ITV a Sky News dros gyfnod o bedair wythnos yn haf 2021.[130]

**106.** Roedd hefyd yn ceisio creu darlun ehangach o'r ystod o bynciau datganoledig sy'n cael sylw mewn bwletinau newyddion rhwydwaith teledu ac ar-lein, a sut mae'r materion sydd o bwys i'r bobl sy'n byw mewn gwahanol rannau o'r DU yn cael eu cynrychioli.[131]

**107.** Mae prif ganfyddiadau'r adroddiad yn cynnwys y canlynol:

- Canfu'r astudiaeth dadansoddi cynnwys fod darparwyr newyddion rhwydwaith y DU wedi gwella eu sylw i faterion datganoledig o'i gymharu â chanfyddiadau blaenorol yn 2015 a 2016.

- Gwnaeth y BBC y gorau o'i rwydwaith mwy o newyddiadurwyr ar draws y gwledydd o'i gymharu â darlledwyr newyddion rhwydwaith eraill, drwy gynnwys mwy o newyddiadurwyr ar leoliad y tu hwnt i Loegr na

[129] Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein – yr Athro Stephen Cushion (Prifysgol Caerdydd) a Dr Richard Thomas (Prifysgol Abertawe) – Ofcom - 23 Chwefror 2022
[130] Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein – yr Athro Stephen Cushion (Prifysgol Caerdydd) a Dr Richard Thomas (Prifysgol Abertawe) – Ofcom - 23 Chwefror 2022
[131] Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein – yr Athro Stephen Cushion (Prifysgol Caerdydd) a Dr Richard Thomas (Prifysgol Abertawe) – Ofcom - 23 Chwefror 2022

bwletinau newyddion eraill, ac yn gyffredinol adroddodd fwy o newyddion am faterion datganoledig.

- Darparodd adroddiadau newyddion y BBC, ac yn arbennig ei wefan newyddion ar-lein, lawer mwy o eglurder ynghylch perthnasedd materion datganoledig o gymharu â bwletinau teledu newyddion rhwydwaith eraill a gwefannau ar-lein.
- Darparodd adroddiadau newyddion teledu'r BBC lawer mwy o gyfeiriadau at bwerau datganoledig naill ai yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon na darparwyr newyddion rhwydwaith eraill, tra bod newyddion ar-lein y BBC yn cyfeirio'n fwy penodol at berthnasedd materion datganoledig na newyddion teledu.[132]

**108.** Gwnaethom drafod adroddiadau newyddion rhwydwaith ag Ofcom a ddywedodd wrthym:

> *"I think there are still too many occasions when the devolved responsibilities of the devolved Parliaments are not accurately recorded or reflected in London news bulletins. I think that's true; I think the BBC recognises that, I think ITN recognises that, and I think Sky News recognises that. The case for an Ofcom intervention on those grounds has to be on the basis that we are required through the licence that— particularly the BBC— we cater for all audiences. And on the basis of complaints, on the basis of audience research, we would have no hesitation in intervening if there was a strong case to spend time and resources in calling for the journalists and the broadcasters to account on that basis. But I do agree with you that it's quite sloppy at times that the responsibilities of the devolved Parliaments are not accurately reflected in the news bulletins"*[133]

[132] Adrodd ar y gwledydd a materion datganoledig ar newyddion rhwydwaith: Dadansoddiad o ddarpariaeth teledu ac ar-lein – yr Athro Stephen Cushion (Prifysgol Caerdydd) a Dr Richard Thomas (Prifysgol Abertawe) – Ofcom - 23 Chwefror 2022
[133] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 214

## Ein barn ni

**109.** Rydym yn falch o weld bod adroddiadau newyddion rhwydwaith ledled y DU wedi gwella ei sylw i faterion datganoledig. Fodd bynnag, mae gwaith i'w wneud o hyd er mwyn sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gwybod digon am benderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar eu bywydau beunyddiol, fel iechyd, addysg a'r economi. Nid yw newyddion rhwydwaith yn y DU wedi dal i fyny'n llwyr eto â natur ddatganoledig gwleidyddiaeth y DU, ac mae angen i ddarparwyr newyddion rhwydwaith barhau i ysgogi gwelliannau yn y maes hwn.

**Argymhelliad 11.** Dylai darparwyr newyddion rhwydwaith, gan gynnwys y BBC ac ITN, barhau i ysgogi gwelliannau yn eu hadroddiadau ar faterion polisi datganoledig.

**110.** Er mwyn sicrhau nad yw'r cynnydd hyd yma'n llithro, dylai Ofcom barhau i adolygu mater darllediadau newyddion rhwydwaith o faterion polisi datganoledig. Credwn y dylai Ofcom hefyd ddefnyddio ei bwerau rheoleiddio i ysgogi gwelliannau i ddarllediadau newyddion rhwydwaith o faterion polisi datganoledig.

**Argymhelliad 12.** Dylai Ofcom adolygu darllediadau newyddion rhwydwaith y DU o faterion polisi datganoledig yn barhaus. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn.

**Argymhelliad 13.** Dylai Ofcom ddefnyddio pwerau rheoleiddio presennol i wella'r sylw a roddir i faterion polisi datganoledig yn y newyddion rhwydwaith. Dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn amlinellu sut y bydd yn gwneud hyn.

# 8. Hawliau darlledu chwaraeon

**111.** Mae Deddf Ddarlledu 1996 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon lunio rhestr o ddigwyddiadau chwaraeon o ddiddordeb cenedlaethol.[134] Golyga hyn bod yn rhaid i'r hawliau darlledu i'r digwyddiadau hyn gael eu cynnig i'r prif ddarlledwyr daearol i'w gweld am ddim ar delerau teg a rhesymol. Y nod yw sicrhau bod y digwyddiadau ar gael i bob gwyliwr teledu. Fodd bynnag, ni roddir diffiniad o ddiddordeb cenedlaethol yn Neddf 1996.[135] Mae'r Bil Cyfryngau Drafft yn cynnig newid y gwasanaethau (h.y. darlledwyr) sy'n gymwys o dan y drefn digwyddiadau rhestredig i gynnwys S4C, ond heb newid cwmpas na natur y warchodaeth a ddarperir i ddigwyddiadau rhestredig.[136]

**112.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer cynyddol o ddigwyddiadau chwaraeon heb eu rhestru yn mynd y tu ôl i wal dalu, wrth i ddarlledwyr am ddim ei chael hi'n anodd cystadlu â chwmnïau ffrydio byd-eang. Enghraifft o hyn yw Cyfres Ryngwladol Rygbi'r Hydref i ddynion sydd wedi'i darlledu ar Amazon Prime ers 2021, yn hytrach na'r BBC ac S4C.[137]

**113.** Cymru yw'r unig wlad o wledydd y DU ag unrhyw gemau rygbi yn ymddangos yn ei 10 rhaglen a gafodd eu gwylio fwyaf yn 2022.[138] Fel yn 2021, gêm Cymru v Ffrainc ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, a ddarlledwyd ar BBC One, oedd y rhaglen a gafodd ei gwylio fwyaf yng Nghymru am y flwyddyn, gyda chynulleidfa o 652,000 ar gyfartaledd.[139]Roedd Cwpan Pêl-droed y Byd a gêm Cymru v Lloegr ym Mhencampwriaeth y Chwe Gwlad, y darlledwyd y ddau ohonynt ar ITV, hefyd ymhlith y 10 sioe a gafodd eu gwylio fwyaf yng Nghymru yn 2022.[140]

---

[134] Rhan IV o Ddeddf Darlledu 1996
[135] Rhan IV o Ddeddf Darlledu 1996
[136] Bil y Cyfryngau (fel y'i cyflwynwyd) – Senedd y DU – 8 Tachwedd 2023
[137] Wales rugby: TV offers 'not enough' to air free coverage — Newyddion y BBC – 20 Hydref 2021
[138] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[139] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[140] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023

**114.** Yn ystod Cwpan Pêl-droed Dynion y Byd yn 2022, dangosodd ITV gêm gyntaf Cymru yn erbyn UDA a sicrhaodd gynulleidfa frig yn y DU o 11.5 miliwn a chyfran o 56 y cant o wylwyr. [141] Yng Nghymru, roedd y gyfran frig hyd yn oed yn uwch, gyda 69% o'r gynulleidfa teledu oedd ar gael yn gwylio'r gêm ar ITV. [142] Dangosodd ITV bob gêm yn nhwrnamaint Cwpan Rygbi'r Byd dynion yn Ffrainc eleni.

**115.** Ym mis Hydref 2023, argymhellodd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin y dylid ychwanegu Pencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad at restr Grŵp A o ddigwyddiadau chwaraeon, a bod Ofcom yn cael y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i rai digwyddiadau chwaraeon gynnwys sylwebaeth Gymraeg.[143]

**116.** Eglurodd yr holl ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus y gwnaethom siarad â nhw y gwerth yr oedd chwaraeon yn ei roi i'w cynulleidfaoedd. Roedd pob un yn gefnogwyr brwd o'r drefn digwyddiadau rhestredig. Dywedodd y BBC fod y Chwe Gwlad yn enfawr i bobl Cymru.[144] Dywedodd ITV wrthym yn ystod gêm ddiweddar Cymru a'r Ariannin yng Nghwpan Rygbi'r Byd 2023 ei bod yn ymddangos fel petai pawb yn y wlad yn ei wylio.[145]

**117.** Yn 2021, gwnaethom ysgrifennu'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ynghylch y pwysau a wynebir gan ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus wrth gystadlu â chwmnïau ffrydio byd-eang, yn enwedig gyda hawliau chwaraeon.[146] Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog dros y Cyfryngau, Data a Seilwaith Digidol ar y pryd, Julia Lopez AS wrthym:

[141] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[142] Ofcom Cyfryngau'r Genedl Cymru 2023
[143] Darlledu yng Nghymru – Pwyllgor Materion Cymreig – 27 Hydref 2023 – Tŷ'r Cyffredin
[144]Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 190
[145] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 – paragraff 313
[146] Llythyr at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon - Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yng Nghymru - Tachwedd 2021 [PDF 127 KB]

> *"The Government believes that the current Listed Events regime works well and strikes an appropriate balance".*[147]

**118.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am ei farn ar y drefn bresennol o ddigwyddiadau rhestredig. Dywedodd wrthym fod angen sicrhau cydbwysedd wrth restru digwyddiadau, sydd yn ei hanfod yn capio'r pris y gall cyrff llywodraethu chwaraeon ei godi am ddarlledu eu digwyddiadau.[148] Eglurodd y Gweinidog hefyd y byddai'n anodd darparu lefelau gwahanol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon ledled y DU:

> *"I think it would be quite difficult to say that, for instance, rugby matches involving Wales should have a different level of protection to rugby matches involving England. I think you— [Interruption.] Well, yes, actually, I think rugby is attracting rather a lot of attention at the moment in England, and I think— . I'm not sure it would be right to try and distinguish between the importance of a sport in one part of the United Kingdom as against another part of the United Kingdom. At the moment, it's a theoretical issue, and I think the chances are it will probably remain a theoretical issue, but that is a matter for them."*[149]

**119.** Dywedodd y Gweinidog wrthym, er hyn, nad yw'r rhestr gyfredol o ddigwyddiadau chwaraeon gwarchodedig yn fater sydd wedi'i gau:

> *"And I would say that whilst broadcasting is reserved, sport is not, and therefore— . We've always said that if the Welsh Parliament argued very strongly that, for the good of sport in Wales, we needed to look*

[147] Ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon – Dyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus a'r cyfryngau yng Nghymru - Rhagfyr 2021 [PDF 114 KB]
[148] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 102
[149] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 104

> *again at the listed events, we would look at it, certainly. So, it's not closed."*[150]

**120.** Mewn gohebiaeth â ni ar ôl ei sesiwn dystiolaeth, amlinellodd Ofcom yr amodau marchnad heriol y mae darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ynddynt o ran hawliau chwaraeon:

> *"PSBs are facing budget constraints, whether from a freeze to the licence fee or a downturn in the advertising market, and this is compounded by production cost inflation. Sports rights can be expensive, and these budget constraints may be impacting PSBs' ability to compete for these rights packages. In recent years PSBs have also faced competition from new global media organisations interested in expanding into the sports market, including online and streaming services. PSBs have long faced competition in the sports rights market from Pay TV providers, such as Sky or BT Sport, so this is not a new challenge but is certainly becoming more acute."*[151]

## Ein barn ni

**121.** Mae ffigurau gwylio diweddar yn siarad yn huawdl am y gwerth y mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar wylio digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol yng Nghymru. Mae gallu darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus i brynu hawliau i'r digwyddiadau hyn wedi'i gyfyngu gan eu cyfyngiadau cyllidebol eu hunain, yn ogystal â phrisiau cynyddol mewn marchnad fyd-eang.

**122.** Rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog, y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale OBE AS, am fod yn agored i ystyried barn y Senedd ynghylch a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r system bresennol o ddigwyddiadau chwaraeon rhestredig. O ystyried y gwerth clir y mae cynulleidfaoedd yn ei roi ar chwaraeon yng Nghymru, penderfynwyd y byddem yn cynnal ymchwiliad byr i

[150] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 117
[151] Llythyr gan Ofcom at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Darlledu gwasanaeth cyhoeddus – 23 Hydref 2023

ddigwyddiadau chwaraeon rhestredig, gan ganolbwyntio ar Bencampwriaeth Rygbi'r Chwe Gwlad.

# 9. Polisi Llywodraeth Cymru

**123.** Mae darlledu yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU, fel yr amlinellir yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.[152] Fodd bynnag, mae darlledu yn gysylltiedig ag ystod o faterion datganoledig, megis y Gymraeg. Er enghraifft, mae S4C yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith tuag at y targed o 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.[153]

**124.** Dywedodd Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth wrthym fod y fframwaith darlledu presennol yn:

> *"rhwystro bywyd democrataidd ein gwlad ac [nid] yw'n diwallu anghenion y Gymraeg, nac uchelgeisiau ar gyfer y Gymraeg. Mae'n tynnu sylw at yr angen i wella newyddiaduraeth Cymru ac i fynd i'r afael â'r diffyg gwybodaeth. Cyfryngau amlddarparwr yw asgwrn cefn unrhyw gymdeithas ddemocrataidd, weithredol ac mae diogelu'r gymdeithas honno yn hollbwysig i sicrhau darpariaeth newyddion ddeallus a chytbwys."*[154]

## Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru

**125.** Yn 2021, galwodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, sef Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu'r Pumed Senedd, am ddatganoli pwerau pellach dros ddarlledu i Gymru. Roedd y pwerau hyn yn cynnwys rôl ffurfiol wrth bennu ffi'r drwydded, a chyfrifoldeb dros y darlledwr Cymraeg, S4C. Nid oedd yn argymell datganoli darlledu yn gyfan gwbl. [155]

**126.** Wrth ymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru:

---

[152] Atodlen 7A, Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[153] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth: S4C a Cymraeg 2050 – Llywodraeth Cymru – 7 Chwefror 2023
[154] Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – 12 Mawrth 2024 [PDF 207 KB]
[155] Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu - Mawrth 2021

> *"… mae Llywodraeth Cymru yn parhau o'r farn na ddylid datganoli darlledu nac elfennau o ddarlledu. Gallai fod risgiau ariannol sylweddol i ddatganoli'r pwerau hyn i Gymru, heb unrhyw sicrwydd y byddai cyllidebau'n cael eu trosglwyddo hefyd."*[156]

**127.** Newidiodd safbwynt Llywodraeth Cymru, er hyn, yn dilyn y Cytundeb Cydweithredu â Phlaid Cymru yn 2021.[157] Mae'r Cytundeb yn dweud y dylai pwerau sy'n ymwneud â darlledu a chyfathrebu fod yn fater i'r Senedd.[158]

**128.** Sefydlwyd panel arbenigol ar ddatganoli darlledu ym mis Mehefin 2022 i fwrw ymlaen ag ymrwymiad y Cytundeb Cydweithio i archwilio creu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru:[159] Cyhoeddwyd adroddiad y Panel Arbenigol hwn ym mis Awst 2023. Daeth y panel i'r casgliad bod y sector:

> *"… angen corff annibynnol o arbenigedd ar y sector hanfodol hwn – Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol – i gynyddu tryloywder a gweledwedd ar lefel Gymreig."*[160]

**129.** Ar 11 Mawrth 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd yn sefydlu Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu. Bydd y corff hwn yn rhoi arweiniad ac yn llywio polisïau ym maes darlledu a chyfathrebu yng Nghymru.[161] Dywedodd Llywodraeth Cymru y bydd y corff yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sector, ac yn rhoi "cyngor rheolaidd a dibynadwy" i'r Llywodraeth.[162]

**130.** Dywedodd S4C wrthym, hyd yn oed pe bai'r Awdurdod Cysgodol yn cael ei sefydlu, oni bai bod darlledu'n cael ei ddatganoli, ni fyddai'n newid unrhyw beth o ran rheoleiddio.[163] Fodd bynnag, nododd ITV ei fod yn edrych ymlaen at

---

[156] Ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Edrych ar ddatganoli darlledu: Sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?
[157] Y Cytundeb Cydweithio:
[158] Y Cytundeb Cydweithio:
[159] Cyhoeddi panel arbenigol ar ddatganoli darlledu – Llywodraeth Cymru – 14 Mehefin 2022
[160] Dyfodol newydd ar gyfer darlledu a chyfathrebu yng Nghymru - Panel Arbenigol ar Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu Cysgodol i Gymru – 2 Awst 2023
[161] Datganiad Ysgrifenedig: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarlledu – 11 Mawrth 2024
[162] Datganiad Ysgrifenedig: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddarlledu – 11 Mawrth 2024
[163] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 89

ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar unrhyw argymhellion yn deillio o'r adroddiad.[164]

## Ein barn ni

**131.** Er ein bod yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu Corff Cynghori ar Ddarlledu a Chyfathrebu newydd, mae'n rhy gynnar i ni gynnal asesiad o'i waith. Fodd bynnag, edrychwn ymlaen at ddysgu mwy amdano, ac at fonitro ei gynnydd, maes o law.

[164] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 16 Tachwedd 2023 –paragraff 347

# 10. O ble y daw'r gwelliannau?

**132.** Drwy gydol ein hymchwiliad, gwnaethom holi tystion am yr heriau sy'n wynebu cynulleidfaoedd yng Nghymru. Roeddem am archwilio o ble y dylai gwelliannau yn y ddarpariaeth o gynnwys cyfryngau i gynulleidfaoedd yng Nghymru ddod.

## Dim Newyddion Cymru gyfan

**133.** Galwodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd am newidiadau i drwyddedu radio masnachol i'w gwneud hi'n ofynnol i gynnwys Cymraeg fod yn rhan o drwyddedau radio masnachol yng Nghymru, ac i gyflwyno categori rheoleiddio newyddion Cymru gyfan.[165] Mewn gohebiaeth â ni, gwrthododd Llywodraeth y DU ar y pryd y ddau gynnig [166]:

> *"The Government does not believe that proposals to introduce specific news and Welsh language requirements on commercial radio stations in Wales are appropriate and may result in a large increase in costs for commercial stations that already have significant challenges due to lower market sizes and higher distribution costs due to the hilly and mountain topography in much of Mid and North Wales in particular. We note that the BBC has plans to launch an extended BBC Cymru 2 service shortly, with a substantial increase in hours of original Welsh programming, and that commercial stations that do provide Welsh language programming such as Capital Cymru and Greatest Hits South Wales will continue to provide Welsh language services."*[167]

[165] Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni? – Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu – Mawrth 2021
[166] Llythyr oddi wrth Syr John Whittingdale AS: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru –
15 Tachwedd 2023 [PDF 3 MB]
[167] Llythyr oddi wrth Syr John Whittingdale AS: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru –
15 Tachwedd 2023 [PDF 3 MB]

## Ofcom: Yn fy marn i, byddai pawb ledled y Deyrnas Unedig yn hoffi gweld mwy o raglenni amdanyn nhw

**134.** Dywedodd Ofcom wrthym, petaech yn gofyn i gynulleidfaoedd a hoffent weld mwy o raglenni amdanyn nhw a'u hardaloedd, y byddai'r ateb yn un cadarnhaol. Dywedwyd wrthym:

> *"Representation and portrayal is a real priority for Ofcom, and, actually, we can always see more of it."*[168]

**135.** Ar 1 Ebrill 2023, roedd 16 aelod o staff yn cael eu cyflogi gan Ofcom yng Nghaerdydd, o gymharu â 68 ym Manceinion, 13 ym Melffast, 68 yng Nghaeredin a 1070 yn Llundain.[169] Pan oedd heriau ar y nifer is o staff yng Nghymru o gymharu â chenhedloedd eraill, tra bod mwy o gapasiti i gyflogi pobl yng Nghymru, roedd Ofcom yn glir:

> *"I don't think we measure influence by the number of employees. Ofcom used to be entirely in London, but, over recent years, the policy has been to spread the workforce throughout the nations and regions. The Welsh office is economic, it's effective."*[170]

## Llywodraeth y DU: Yn fy marn i, dyma rywbeth y mae angen i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus roi sylw iddo

**136.** Gwnaethom drafod prinder cynnwys newyddion am Gymru â'r Gweinidog. Dywedodd wrthym mai mater i ddarlledwyr ydyw. Ychwanegodd fod gan Ofcom

[168] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 157
[169] Cais rhyddid gwybodaeth – gwybodaeth am staff a gyflogir yn swyddfeydd Ofcom – Ofcom –
17 Mai 2023
[170] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 4 Hydref 2023 – paragraff 231

ddyletswydd i sicrhau bod y BBC, er enghraifft, yn cadw at ei siarter ac yn darparu'r cynnwys perthnasol.[171]

**137.** Gwnaethom ofyn yn fwy cyffredinol i'r Gweinidog am wella cynnwys y cyfryngau yng Nghymru. Dywedodd wrthym:

> *"I think it is something that public service broadcasters need to address. I think obviously S4C has a particular role in that that is going to be much more focused on content from Wales and in the Welsh language, but that's not to excuse ITV and the BBC, and I think both of them recognise that, but probably could do more. But that is something you have to raise with them."[172]*

## Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

**138.** Roedd adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn cynnwys trafodaeth ar newidiadau cyfansoddiadol mewn perthynas â darlledu (sy'n fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU ar hyn o bryd).[173] Edrychodd is-grŵp darlledu yn fanwl ar y mater. Argymhellodd yr adroddiad:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar fecanweithiau ar gyfer llais cryfach i Gymru ar bolisi, craffu ac atebolrwydd ym maes darlledu, a dylai gwaith cadarn barhau ar lwybrau posibl at ddatganoli."[174]*

[171] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 17
[172] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Hydref 2023 – paragraff 44
[173] Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol – 17 Ionawr 2024
[174] Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiadau is-grwpiau – Darlledu – 17 Ionawr 2024

## Trefniadau llywodraethu presennol

**139.** Er bod darlledu yn fater a gedwir yn ôl i Lywodraeth y DU,[175] mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru rolau ffurfiol mewn llywodraethu darlledu yng Nghymru.

**140.** O ran Ofcom, mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau. Mae'r ddogfen hon yn ymrwymo Ofcom i ymgynghori â Llywodraeth Cymru a'r Senedd ar ei Gynllun Gwaith drafft, yn nodi'r broses i Weinidogion Cymru benodi aelod i Fwrdd Ofcom ac yn amlinellu y bydd Ofcom yn mynychu cyfarfodydd pwyllgorau'r Senedd lle y bo angen.[176]

**141.** Mae dull tebyg ar waith ar gyfer y BBC, lle mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r BBC.[177] Mae'n amlinellu y bydd Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Llywodraeth Cymru drwy gydol yr Adolygiad o Siarter y BBC, ac y bydd y BBC yn ymddangos gerbron pwyllgorau'r Senedd ar yr un sail ag y mae yn Senedd y DU. Yn ogystal, mae angen cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar benodiad Aelod Bwrdd y BBC dros Gymru.[178]

**142.** Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym y byddai'n hoffi gweld newidiadau i sicrhau llais "digonol" i Gymru mewn trafodaethau ynghylch darlledu, yn ogystal â strwythurau i wella atebolrwydd i Gymru. Dywedodd y Llywodraeth y gallai hyn fod ar ffurf:

> *"… rôl gydsynio gryfach, fwy ffurfiol ym mhob penodiad darlledu sy'n effeithio ar Gymru, rôl ffurfiol mewn adolygiadau a'r broses gwneud penderfyniadau ar gyllid i ddarlledwyr sy'n effeithio ar Gymru, megis*

[175] Atodlen 7A, Deddf Llywodraeth Cymru 2006
[176] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Senedd Cymru a'r Swyddfa Gyfathrebiadau
[177] Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a'r BBC
[178] Aelod Anweithredol o Fwrdd y BBC dros Gymru

> *Adolygiad Trwyddedau Teledu, a gwell trefniadau llywodraethu i ddarlledwyr, er enghraifft drwy Siarter BBC i Gymru."*[179]

## Ein barn ni

**143.** Rydym yn cytuno â barn y Pwyllgor a'n rhagflaenodd fod y cyflenwad o gynnwys cyfryngau i Gymru yn annigonol. Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad hwn, nid ydym ddim cliriach yn ein meddyliau o ble y daw'r gwelliannau mawr angenrheidiol.

**144.** Dywedodd swyddogion Ofcom wrthym fod bob amser mwy nag y gellir ei wneud i wella'r ddarpariaeth bresennol ond ni wnaethant ddarparu enghreifftiau clir o ble y byddai rheoleiddio yn sicrhau'r gwelliannau hyn.

**145.** Mae'n anodd gweld gwelliannau'n dod yn sgil rheoleiddio Ofcom ar gyfryngau darlledu yng Nghymru. Clywsom, heb unrhyw gynnydd canfyddedig yng ngwerth trwydded Sianel 3, na fydd unrhyw rwymedigaethau darlledu gwasanaeth cyhoeddus uwch yn cael eu gosod ar ddeiliad nesaf y drwydded hon yng Nghymru. Mae'n ymddangos bod rheoleiddio'r BBC gan Ofcom yn darparu terfyn isaf sy'n atal y ddarpariaeth i Gymru rhag disgyn, yn hytrach na sbarduno gwelliannau. Yn ogystal, bydd y pwerau cyfyngedig sydd gan Ofcom i orfodi ymrwymiadau iaith Gymraeg mewn trwyddedau radio masnachol yn cael eu dileu gan y Bil Cyfryngau.

**146.** Mae hefyd yn anodd gweld gwelliannau sylweddol yn dod gan y darlledwyr eu hunain. Mae'r BBC wedi gwneud cynnydd clodwiw o ran symud cynyrchiadau y tu allan i Lundain, a chywiro dirywiad hanesyddol mewn ariannu cynnwys Saesneg ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r darlledwr wedi bod yn brwydro yn erbyn o leiaf 25 y cant o doriad mewn termau real mewn cyllid yn y degawd diwethaf, ac yn parhau i wneud hynny. Disgwyliwn y bydd codiad ffi'r drwydded y flwyddyn nesaf hefyd yn llai nag y byddai'r BBC wedi gobeithio. Mae S4C yn weithgar dros ben wrth amrywio ei chynnyrch ar

[179] Llythyr gan Ddirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth: Craffu ar Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus – 12 Mawrth 2024 [PDF 207 KB]

draws llwyfannau digidol, ond nid yw wedi'i hariannu'n briodol er mwyn i'r gwaith hwn gael yr effaith y gallai ei chael.

**147.** Roeddem yn siomedig â'r diffyg dadansoddiad penodol i Gymru gan Ofcom. Soniodd uwch-swyddogion am anghenion cynulleidfaoedd Cymru mewn cyffredinoliadau amwys a fyddai'n berthnasol unrhyw le ar draws y DU. Mae'n bosibl bod y diffyg mewnwelediad hwn yn gysylltiedig â niferoedd staffio isel Ofcom yng Nghymru.

**Argymhelliad 14.** Dylai Ofcom wella ei ddadansoddiad o'r cyfryngau a ddarperir yng Nghymru, gan gynnwys drwy gynyddu lefelau staffio yng Nghymru.

**148.** Yn y pen draw, Llywodraeth y DU, sy'n dylunio'r bensaernïaeth ddarlledu yn y DU, sy'n gyfrifol am ysgogi gwelliannau. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddo am y prinder cynnwys newyddion yng Nghymru, cyfeiriodd y Gweinidog y Pwyllgor at Ofcom a'r darlledwyr am atebion. Gwrthododd Llywodraeth y DU gynigion gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd i ddeddfu i wella darpariaeth newyddion a'r Gymraeg ar radio masnachol.

**149.** Mae'r dirwedd ddarlledu wedi'i thrawsnewid dros y degawdau diwethaf gan ddosbarthu digidol. Mae hyn wedi bod o fudd i gynulleidfaoedd drwy gynnydd mewn dewis, wrth amharu ar y systemau a oedd yn sail i ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus. Fodd bynnag, nid yw'r angen am ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus wedi lleihau. Anaml y bydd darparwyr cyfryngau newydd yn darparu cynnwys y byddem yn cydnabod bod gwasanaeth cyhoeddus yn greiddiol iddo, ond yn hytrach yn darparu dewis enfawr o fewn ystod gyfyngedig o genres.

**150.** Bydd Bil Cyfryngau Llywodraeth y DU yn diweddaru'r broses o reoleiddio darlledu gwasanaeth cyhoeddus ar gyfer yr oes ddigidol, ac mae hyn i'w groesawu. Er y dylai hyn roi darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus mewn gwell sefyllfa i gystadlu yn y byd aml-lwyfan, mae hyn yn annhebygol o ysgogi gwelliannau sylweddol i lefelau presennol y ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru. Hoffem weld Llywodraeth y DU yn fwy hyderus wrth ysgogi gwelliannau i gynulleidfaoedd yng Nghymru, gan gydnabod y gwahanol anghenion ac amodau'r farchnad ar draws gwahanol wledydd a rhanbarthau'r DU.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth y DU nodi sut y bydd yn gwella'r cynnwys y cyfryngau a ddarperir i gynulleidfaoedd yng Nghymru.

**151.** Rydym yn cytuno â'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru y dylai Llywodraethau Cymru a Llywodraeth y DU gytuno ar fecanweithiau ar gyfer llais cryfach i Gymru ar bolisi darlledu, craffu ac atebolrwydd.

**152.** Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod y BBC, S4C, ITV ac Ofcom wedi dangos i ymddangos gerbron y Pwyllgor hwn.

**153.** Wrth ei osod yn erbyn y cefndir cyfansoddiadol presennol lle mae darlledu'n parhau i fod yn fater a gedwir yn ôl, prin yw'r opsiynau sydd ar gael ar gyfer gwella'r craffu ar drefniadau llywodraethu presennol ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Nid yw hyn yn golygu, er hyn, na ellir gwneud newidiadau. Credwn y byddai'r craffu ar ddarlledu ac atebolrwydd y rhai sy'n gyfrifol am redeg sefydliadau darlledu yn gwella pe byddai'r Senedd yn cael rôl. Fel y cyfryw, rydym yn argymell y dylai ymgeiswyr a ffefrir ar gyfer Cymru sy'n aelodau o fyrddau Ofcom a'r BBC fod yn destun gwrandawiadau cyn penodi gyda phwyllgor perthnasol y Senedd. Credwn hefyd y dylai penodiad Cadeirydd S4C fod yn benodiad ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a byddai'r ymgeisydd a ffefrir hefyd yn destun gwrandawiad cyn penodi o flaen un o bwyllgorau'r Senedd.

**Argymhelliad 16.** Dim ond ar ôl i un o bwyllgorau'r Senedd gael cynnig y cyfle i gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeiswyr a ffefrir y dylai Llywodraeth Cymru gytuno i benodiadau i rolau Ofcom ac aelodau'r BBC dros Gymru.

**Argymhelliad 17.** Dylai fod angen cytundeb Llywodraeth Cymru ar gyfer penodiad Cadeirydd S4C gan Lywodraeth y DU. I gyd-fynd â hyn, dylid cynnig cyfle i un o bwyllgorau'r Senedd gynnal gwrandawiad cyn penodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **4 Hydref 2023** | **Rhodri Williams, Cadeirydd**<br>S4C<br>**Sian Doyle, Prif Swyddog Gweithredol**<br>S4C<br>**Arglwydd Yarmouth Michael Grade, Cadeirydd**<br>Ofcom<br>**Siobhan Walsh, Cyfarwyddwr Grŵp Dros Dro**<br>Ofcom<br>**Eleanor Marks, Cyfarwyddwr Cymru**<br>Ofcom |
| **19 Hydref 2023** | **Y Gwir Anrhydeddus Syr John Whittingdale OBE AS**<br>Y Gweinidog Gwladol dros y Cyfryngau, Twristiaeth a'r Diwydiannau Creadigol |
| **16 Tachwedd 2023** | **Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol**<br>BBC<br>**Y Fonesig Elan Closs Stephens, Cadeirydd Dros Dro**<br>BBC<br>**Rhuanedd Richards, Cyfarwyddwr**<br>BBC Cymru Wales<br>**Phil Henfrey, Pennaeth Newyddion a Rhaglenni**<br>ITV Cymru Wales<br>**Magnus Brooke, Cyfarwyddwr Grŵp dros Strategaeth, Polisi a Rheoleiddio**<br>ITV |